Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 27 Mehefin 2016 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

6. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

7. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 7)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

8. **Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** (Tudalennau 8 - 10)

9. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Diweddariad cyfnodol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 11 - 20)

   **b)** Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 21 - 44)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**10.** **<u>Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:</u>**

**a)** Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 45 - 48)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 49 - 50)

**11.** **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</u>**

Dydd Llun, 19 Medi 2016 @ 2.00pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a'r Amgylchedd yn y cyfarfod.

## PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 7 Mawrth 2016, am 2.15 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Councillor Glenys Diskin (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, William T Hughes, Dilwyn Morgan, a Neville Phillips |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury a Tim Rhodes |
| Hefyd yn bresennol: | Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Ariannol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |

228. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr David Griffiths (Wrecsam), Bernie McCann (Wrecsam) a Gethin Williams (Gwynedd).

229. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

230. **MATERION BRYS**

Dim.

231. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 25 Ionawr 2016 i’w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 223 – Adroddiad Gosod Cyllideb a Phraesept 2016/17, nodwyd bod y cyflwyniad wedi amlygu bod *‘grantiau heddlu gwrthderfysgol yn aros fwy neu lai yr un maint yn ystod y cyfnod hwn.’*

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad i Gofnod 223 uchod.**

232. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

233. **GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Gofynnwyd i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ystyried enwebiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru (PCC) ar gyfer swydd statudol Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (OPCC).

Mae Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i’r PCP gynnal gwrandawiad cadarnhau yn gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig o uwch benodiad. Yn unol â Pharagraff 11 o Atodlen 1 y Ddeddf, roedd yr ymgeisydd yn bresennol i ddiben ateb cwestiynau yn ymwneud â phenodi.

Rhoddodd y PCC wybod i'r PCP am y broses ddethol a phenodi, a oedd wedi denu cyfanswm o 17 o geisiadau, a gwahoddwyd pump o ymgeiswyr am gyfweliad.

Mr. Stephen Hughes oedd yr ymgeisydd cryfaf yn y cyfweliad, gyda’i sgiliau, ei brofiad yn rôl Prif Weithredwr Dros Dro yr OPCC a'i frwdfrydedd yn ei wneud yr ymgeisydd delfrydol ar gyfer y rôl.

*Ar y cam hwn o'r gwrandawiad cadarnhau, gwaharddodd y PCP yr ymgeisydd (Mr. Hughes) a'r wasg a'r cyhoedd, er mwyn trafod y penodiad.*

Adolygodd y PCP yr uwch benodiad arfaethedig a chydnabod y sgiliau a'r profiad yr oedd Mr. Hughes wedi’u hennill yn ystod y 12 mis diwethaf fel Prif Weithredwr Dros Dro. Roedd y PCP hefyd yn cydnabod fod gan Mr. Hughes brofiad sylweddol o weithio i Heddlu Gogledd Cymru ac y byddai’n dod â nodweddion rhagorol i swyddogaeth y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD-**

**Argymell i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y dylid penodi Mr. Stephen Hughes i swydd statudol Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

234. **DIWEDDARIAD CYFNODOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar gyfer y cyfnod o 1 Tachwedd 2015 i ddiwedd mis Ionawr 2016, a oedd yn cynnwys y canlynol:



- Atal troseddau:

- Gostyngiadau mewn troseddau caffael wedi parhau â gostyngiad o 7.5% mewn byrgleriaeth ddomestig; gostyngiad o 10.8% mewn byrgleriaeth annomestig; gostyngiad o 6.8% mewn dwyn o siopau; a throseddau caffael eraill i lawr 7.2%.
- Roedd gweithgarwch gweithredol yr Heddlu wedi canolbwyntio ar leihau niwed yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd; elfen allweddol oedd darparu ymateb pwrpasol i drais yn y cartref ar nosweithiau allweddol, gyda'r nod o wneud y gorau o'r cyfle i ddiogelu'r dioddefwr, tra'n cymryd camau gorfodi yn erbyn y drwgweithredwyr.
- Dros gyfnod llawn swydd y Comisiynydd, roedd cyfanswm y troseddau wedi gostwng 11.7% a throseddau yn seiliedig ar y dioddefwr wedi gostwng o 10.5%.
- Roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng yn gyffredinol 13.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Darparu ymateb priodol:
  - Boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 77% ar ôl bron i flwyddyn lawn o arolygon.
  - Bodlonrwydd dioddefwr annedd byrgleriaeth yn dangos gwelliant, yn sylweddol felly am ymweliad dilynol, gyda gwelliant o 12.7%, gan fynd ag o i fyny i 87.8%.
- Lleihau'r niwed a'r risg o niwed
  - Mewn perthynas ag ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE) cafwyd 107 o arestiadau troseddwyr eleni hyd yn hyn, sy'n gynnydd sylweddol ar y 10 o arestiadau am y cyfan o'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgareddau ac adnoddau gweithredol sydd wedi cael eu targedu'n rhagweithiol tuag at CSE, a'r mecanweithiau adnabod a chofnodi gwell.
  - Mae nifer o achosion delweddau anweddus o blant a ganfuwyd wedi cynyddu 189% o flwyddyn i flwyddyn; unwaith eto roedd hyn oherwydd yr adnoddau ychwanegol wedi'u targedu tuag at CSE.
  - O ran y nifer o euogfarnau, cadarnhaodd y PCC bod amseroedd aros ar gyfer ymddangosiadau llys wedi gostwng yn sylweddol, yn dilyn pwysau gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar y Gwasanaeth Llys Ynadon i leihau'r rhestrau aros. Cadarnhaodd y Dirprwy PCC hefyd bod y nifer o euogfarnau mewn perthynas â CSE yn fesur o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd a fyddai'n cael ei adrodd yn rheolaidd i'r PCP.
- Gorwariant ar gyllideb TG:
  - Rhoddodd y PCC wybod bod Cyfreithwyr yn gweithio ar ran yr Heddlu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r mater hwn.
- Diweddariad HMIC:
  - Roedd yr HMIC wedi cyhoeddi'r adroddiad arolwg PEEL diweddaraf (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd ac Cyfreithlondeb yr Heddlu) yn ddiweddar ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru o ran ei effeithiolrwydd. Roedd pennawd yr adroddiad wedi awgrymu bod angen gwelliant mewn perthynas â gallu'r Heddlu i wneud pobl yn ddiogel. Ond, roedd y PCC yn herio'r farn hon, gan fod yr adroddiad yn ymddangos fel ei fod yn gwrth-ddweud ei hun yn ei asesiad, gan fod y canfyddiadau yn yr adroddiad yn awgrymu fel arall.

- Ymosodiadau llosgi bwriadol - Parc Caia, Wrecsam
  - Roedd y PCC wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr cymunedol o Barc Caia i drafod y digwyddiadau diweddar yn yr ardal. Roedd y PCC wedi dyrannu £10k i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thanau bwriadol yn yr ardal, mewn ymgynghoriad ag arweinwyr cymunedol.
- Digwyddiad Ci ar yr A55
  - Rhoddodd y PCC wybod ei fod yn disgwyl adroddiad gan y Prif Gwnstabl ar y digwyddiad dan sylw ac y byddai'n gofyn am atebion i'r cwestiynau sydd ganddo. Cytunodd y PCC i adrodd yn ôl i'r PCP yn y dyfodol.

Hefyd rhoddodd y Dirprwy PCC yr wybodaeth ddiweddaraf i'r PCP mewn perthynas â'r gyfradd adael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys i'r rhif 101. Gwnaed newidiadau i'r model staffio yn yr ystafell reoli o ganlyniad i'r angen i wneud arbedion ariannol sylweddol a gallai fod wedi'i briodoli i gynnydd bychan yn y gyfradd adael. Ond, mae cynlluniau bellach wedi'u rhoi yn eu lle i ddyrannu adnoddau ychwanegol ar adegau prysur; os yw'r Heddlu yn dymuno lleihau ei gyfradd adael i 2% (ar hyn o bryd yn 5%), byddai angen 15 o staff ychwanegol.

Rhoddodd y Dirprwy PCC wybod ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Heddlu i rannu'r adborth o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r rhif 101. Roedd nifer o faterion a allai effeithio ar y gyfradd adael, a oedd yn cynnwys apeliadau gan yr Heddlu mewn perthynas â phobl ar goll, pan oedd galwadau yn tueddu i gynyddu. Hefyd, roedd mater yn ymwneud â galwadau yn mynd i'r llu heddlu agosaf, pan ar y ffin Cymru/Lloegr.

Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r rhifau 0300 a 101 yn fwy rhagweithiol. Hefyd, roedd angen hyrwyddo pellach i'r defnydd o'r rhif defnyddiwr sgwrs ar y we; mae'r gwasanaeth sgwrsio ar y we hwn yn darparu dull arall o ymgysylltu â'r cyhoedd a hefyd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i roi gwybod am droseddau ar-lein.

Diolchodd y PCP i'r PCC a'r Dirprwy PCC am y diweddariad a thrafodwyd y materion canlynol:

- Ymarferwyr Iechyd Meddwl o fewn yr Heddlu
  - Rhoddodd y Dirprwy PCC wybod bod prosiect yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i edrych yn benodol ar iechyd meddwl a'r galw ar Swyddogion yr Heddlu.
  - Mae'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr wedi penodi Gweithiwr Achos Iechyd Meddwl a Lles i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddioddefwyr diamddiffyn.
- Y defnydd o faniau Gan Bwyll
  - Rhoddodd y Dirprwy PCC wybod ei fod wedi ymgymryd â darn penodol o waith i ddeall y meini prawf a fabwysiadwyd yn lleol wrth ddyrannu faniau. Roedd yr Heddlu wedi cadarnhau bod y maen prawf 'credir bod gorfodi'r terfyn cyflymder yn gyfiawn, teg a chymesur' wedi'i gymhwyso, wrth ystyried safle pryder

cymunedol (safle a nodwyd gan aelodau'r cyhoedd, fel lleoliad lle mae gyrwyr yn gyrru'n rheolaidd dros y terfyn cyflymder a bod arolwg cyflymder a gynhaliwyd gan yr Heddlu wedi cadarnhau pryderon o'r fath). Anogwyd aelodau o'r cyhoedd i roi adborth i'r Heddlu ar feysydd sy'n peri pryder.

- Rhoddwyd gwybod i'r PCP hefyd mai'r safleoedd craidd ar gyfer defnyddio faniau yw'r ardaloedd lle bu damweiniau difrifol ac angheuol; mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y damweiniau dros y tymor hir.
- Cytunodd y Dirprwy PCC i adrodd yn ôl ar bryderon y PCP ynghylch diffyg gwelededd faniau Gan Bwyll yn yr ardaloedd gwledig.
- Plismona parthau cyflymder 20mya, yn enwedig o amgylch Ysgolion. Cytunodd y Dirprwy PCC i ymchwilio i'r sefyllfa mewn perthynas â gorfodi'r parthau hyn.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Dylid gweithredu'r canlynol:**

- **Bod adroddiad yn cael ei ddarparu i Banel yr Heddlu a Throsedd ar y digwyddiad yn ymwneud â chi ar yr A55 pan fo hynny'n briodol.**
- **Bod pryderon Panel yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â diffyg gwelededd faniau Gan Bwyll yn yr ardaloedd gwledig yn cael eu hadrodd yn ôl i Heddlu Gogledd Cymru.**
- **Y dylid ymchwilio ymhellach i blismona parthau cyflymder 20mya, yn enwedig o amgylch ysgolion.**

235. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2015/16 (AR 31 RHAGFYR 2015)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar y gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2015.

Rhoddwyd gwybod i'r PCP y bu nifer o newidiadau ers yr adroddiad monitro diwethaf, rhagwelir y bydd £1.5m yn cael ei dynnu o'r gronfa Rheoli Newid wrth gefn i ariannu diswyddiadau gwirfoddol, a £0.5m i'w dynnu o'r gronfa Cynnal a Chadw Ystadau a Diogelwch wrth gefn i ariannu gwaith diogelwch.

Ac eithrio'r uchod, roedd yr amcanestyniadau'n dangos bod y gwariant yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb, ond, o fewn hyn roedd nifer o achosion rhagamcanedig o orwariant thanwariant. Roedd y gyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau ar hyn o bryd yn rhagweld gorwariant o £0.667, ond, fel y rhagwelwyd roedd y gorwariant hwn wedi lleihau, ac roedd yn cynnwys ad-daliad gan y darparwr ffôn symudol, a oedd wedi ei gytuno ar £0.424m.

Mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf, rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod bod Prosiect Adleoli Pwllheli ar gadw ar hyn o bryd gan fod pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag addasrwydd y safle a ddewiswyd.

Cwestiynodd y Cynghorydd Philip C. Evans YH yr incwm ychwanegol a ragwelir o £0.652m, a oedd yn gysylltiedig ag incwm o erlyniadau o dan arweiniad yr heddlu a'r posibilrwydd na fydd yr incwm hwn yn cael ei wireddu, oherwydd costau sy'n cael eu dileu.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd y gyllideb wedi cael ei chynyddu yn unol â'r incwm amcanol, a bod y costau a ddyfarnwyd yn cael eu hasesu i nodi faint o'r incwm sy'n gynaliadwy ac y gellid felly ei ymgorffori mewn cyllidebau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r adroddiad.**

*(**NODYN:** Nid oedd yr eitem ganlynol wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond fe'i hystyriwyd fel mater brys, gyda chydsyniad y Cadeirydd, er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen o ran delio gyda'r testunau).*

236. **CYHOEDDIADAU GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD A'R DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyhoeddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ei fod wedi penderfynu peidio â sefyll i gael ei ail-ethol yn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai 2016.

Nid yw Mr Roddick CB QC wedi cymryd y penderfyniad yn ysgafn ac eglurodd ei fod yn awyddus i dreulio mwy o amser gyda'i deulu a'i wyresau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Roddick am y ffordd yr oedd wedi ymddwyn yn ystod ei gyfnod yn y swydd ac am y berthynas waith ardderchog yr oedd wedi'i ddatblygu gyda'r PCP.

Hefyd, rhoddodd Aelodau unigol o'r Panel eu dymuniadau gorau i Mr Roddick ar gyfer y dyfodol a chydnabod y gwaith rhagorol yr oedd wedi ei wneud fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru.

Hefyd, cyhoeddodd Mr Julian Sandham y byddai'n ymddiswyddo o'i swydd fel Dirprwy PCC gan ei fod yn meddwl sefyll yn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Diolchodd y PCP i Mr. Sandham am ei gyfraniad rhagorol i rôl y Dirprwy PCP a dymunodd yn dda iddo yn ei ymdrechion yn y dyfodol.

237. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Gofynnodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor am gael symud cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o 20 Mehefin 2016 i ddydd Llun, 27 Mehefin, 2016 am 2.00 pm, oherwydd refferendwm yr UE.



**PENDERFYNWYD-**

**Aildrefnu cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer dydd Llun 27 Mehefin 2016 am 2.00pm.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm)

**CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

| **Person sy'n cyflwyno'r cwestiwn** | **Cwestiwn** |
|---|---|
| Pat Astbury<br><br>(Aelod Annibynnol o Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) | 1. Sut mae'r Comisiynydd yn bwriadu cydbwyso ei ymrwymiad i'r holl rolau cyhoeddus y mae'n eu gwneud?<br><br>Er fy mod yn deall bod etholiadau yn gostus - os bydd Mr Jones yn ymddiswyddo, yna mae hynny'n fater i bobl Wrecsam yn unig ac nid gweddill Gogledd Cymru. Mae cynghorau yn neilltuo arian ar gyfer etholiadau annisgwyl ac maent yn digwydd yn rheolaidd. Mae 12 mis yn 25% o ddaliadaeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac mae bod yn gweithio rhan amser o bosibl am flwyddyn gyfan yn achosi pryder i mi. Disgwyliadau cymunedau lleol fydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd llawn amser rwy'n siŵr.<br><br>2. Penodi Dirprwy Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - os nad yw'r rôl hon yn cael ei hysbysebu, yna sut mae'n cyd-fynd â Chyfle Cyfartal a 'Bod yn Agored' dan Egwyddorion Nolan? |

## CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

O fis Medi 2015, bydd Panel yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd neu Banel Aelodau, y gellir eu cyflwyno i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Panel Heddlu a Throsedd.

Gweler y Weithdrefn isod am fwy o wybodaeth am sut i gyflwyno cwestiwn yn y cyfarfodydd hyn.

1. Rhaid cyflwyno'r cwestiynau i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 10 diwrnod neu fwy cyn i'r Panel Heddlu a Throsedd gwrdd. Anfonwch neges e-bost gyda'ch cwestiwn i panel.heddlu@conwy.gov.uk neu anfonwch y cwestiwn i'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU.

2. Bydd cwestiynau a gyflwynwyd 10 diwrnod gwaith (neu fwy) yn cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd yn cael eu gofyn yn y cyfarfod hwnnw, yn amodol ar y weithdrefn a nodir isod. Ni fydd unrhyw gwestiwn sy'n cael ei dderbyn lai na 10 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod, oni bai ym marn yr Awdurdod Cynnal (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) bod y cwestiwn yn ymwneud ag eitem ar raglen cyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd ar ôl i'r cwestiwn cael ei gyflwyno neu, ei fod yn fater brys y dylid ei dderbyn yn y cyfarfod.

3. Er mwyn i gwestiwn gael ei dderbyn, **mae'n rhaid iddo**:

   - Ymwneud â swyddogaethau strategol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (gan gynnwys y Cynllun Heddlu a Throsedd) ac **ni ddylai** ymwneud ag unrhyw achosion 'byw' neu reolaeth weithredol Heddlu Gogledd Cymru.

     (*Bydd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â rheolaeth weithredol Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at y Swyddfa'r Prif Gwnstabl, a fydd yn ymdrechu i ymateb yn unol â'r arfer – rhoddir gwybod i'r sawl sy'n gofyn y cwestiwn/Aelod Panel ei fod wedd cael ei anfon ymlaen. Ni fydd y cwestiynau hyn felly yn cael eu derbyn yn gyhoeddus yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd).*

   - **Ni ddylai** fod yn debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o fewn y chwe mis blaenorol, oni bai bod amgylchiadau wedi newid sydd yn cyfiawnhau gofyn y cwestiwn.

   - **Ni ddylai** fod angen datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol.

   - **Ni ddylai** fod yn drallodus nac yn ddifenwol.

4. Os yw'r Awdurdod Cynnal, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Panel Heddlu a Throsedd, o'r farn nad yw'r cwestiwn yn cydymffurfio â pharagraff 2, bydd yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n gofyn y cwestiwn, ac os yw'n briodol, yn cyfeirio'r cwestiwn at y corff cyhoeddus priodol. Os yw'r Awdurdod Cynnal yn ystyried nad yw'r cwestiwn yn cydymffurfio â pharagraff 2, bydd y cwestiwn yn cael ei gyfeirio at y Comisiynydd a

bydd yn cael ei drin fel petai wedi cael ei fabwysiadu gan y Panel Heddlu a Throsedd a bydd yn destun y weithdrefn sydd wedi’i nodi yn Atodiad 2.

5. Bydd cwestiynau a fabwysiedir gan y Panel Heddlu a Throsedd yn unol â pharagraff 3 uchod yn cael eu gofyn gan y Panel Heddlu a Throsedd i'r Comisiynydd, a rhoddir cyfrifoldeb ar Aelod y Panel i ofyn y cwestiwn, yn ôl doethineb y Cadeirydd, gan ystyried perthnasedd y cwestiwn i ardal (oedd) penodol o fewn awdurdodaeth y Panel Heddlu a Throsedd.

6. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi ymateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd iddo o dan baragraff 3, a fydd ar gael i'r unigolyn a ofynnodd y cwestiwn ("yr holwr") ac aelodau o Banel Heddlu a throsedd erbyn hanner dydd ar ddiwrnod cyn cyfarfod y Panel, ble bydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno.

7. Fe ystyrir bod y cwestiwn "wedi cael ei ddarllen" ar gychwyn y cyfarfod.

8. Caiff yr Aelod Panel ofyn cwestiwn atodol, a rhaid i’r cwestiwn atodol ymwneud â'r cwestiwn cychwynnol a bod at ddibenion o eglurhad ac nid er mwyn trafod materion newydd. Dim ond un cwestiwn atodol a ganiateir ar gyfer pob cwestiwn cychwynnol. Bydd cwestiynau atodol ac ymatebion yn cael eu cynnwys yng nghofnod ffurfiol y cyfarfod.

9. Fe fydd yna achosion pan na fydd swyddogion y Comisiynydd yn gallu ymateb i gwestiwn atodol yn y cyfarfod. Mewn achosion o'r fath, bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i'r holwr gan y Comisiynydd o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod, ac fe roddir copi i’r Awdurdod Cynnal.

10. Ni fydd cwestiwn ac ateb yn destun trafodaeth neu benderfyniad pellach yn y cyfarfod. Efallai y bydd cynnwys y cwestiwn fod yn destun adroddiad a thrafodaeth bellach mewn cyfarfod diweddarach o Banel Heddlu a Throsedd.

11. Fe dderbynnir y bydd y Panel Heddlu a throsedd yn caniatáu hyd at 10 munud ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd, er efallai y bydd yn dymuno ymestyn hyn dan yr amgylchiadau priodol.

# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
# 27 Mehefin 2016
# *Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

## Cyflwyniad

Rwy'n falch dros ben o gael fy ethol fel comisiynydd heddlu a throsedd Gogledd Cymru. Mae'n fraint cael y gefnogaeth yr wyf wedi ei derbyn drwy Ogledd Cymru.

Rwy'n edrych ymlaen at yr heriau ac at adeiladu ar waith fy rhagflaenydd Mr. Winston Roddick.

Mae gan y Panel Heddlu a Throsedd rôl allweddol i graffu ar y penderfyniadau y byddaf yn eu gwneud fel comisiynydd, rôl yr wyf yn gwybod sydd wedi ei chyflawni'n effeithiol hyd yma. Wrth gwrs byddaf yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r Panel er mwyn iddo barhau i gyflawnir ei ddyletswydd yr un mor effeithiol.

## Yr Wybodaeth Ddiweddaraf

Hwn yw fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod rhwng 1 Chwefror a diwedd Ebrill 2016. Felly mae'n cwmpasu cyfnod olaf fy rhagflaenydd, Mr Winston Roddick CB QC.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer Gogledd Cymru a pharatoi adroddiadau ac argymhellion i mi fel Comisiynydd i'r perwyl hwnnw. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol ar y Panel gan y Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Rhan Un: Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Rwy'n craffu ar yr Heddlu drwy fesur ei berfformiad yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd (y Cynllun) a'r mesurau a nodir yn y Cynllun. Y prif gyfrwng ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth honno fydd y Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn gadeirydd arno ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau Cynllun 2015/16 (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2015). Yn fy adroddiad nesaf i'r Panel byddaf yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn y mesurau yng Nghynllun 2016/17.

Byddaf yn adolygu'r Cynllun yn rheolaidd yng ngoleuni'r newidiadau i ganllaw yr Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw newid sylweddol arall mewn amgylchiadau. Rhoddwyd sicrwydd i mi fod y fersiwn diwygiedig diweddaraf o'r Cynllun a gwblhawyd gan fy rhagflaenydd yn seiliedig ar ymgynghoriad cynhwysfawr a'i fod felly'n adlewyrchu blaenoriaethau pobl Gogledd Cymru. Fodd bynnag, byddaf hefyd yn adolygu'r Cynllun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu beth sy'n bwysig i bobl Gogledd Cymru o safbwynt plismona a throsedd. Rwy'n bwriadu ymgynghori'n eang ynglŷn â'r blaenoriaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru.


## Amcan 1 Heddlu a Throsedd: Atal trosedd

Roedd chwe mesur yng Nghynllun 2015/16 a oedd yn sail i fesur perfformiad yn erbyn yr amcan hwn, sef


1. Cyfanswm lefel troseddau,
2. Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr,
3. Lefel y troseddau sy'n cael eu datrys yn ôl math,
4. Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd,
5. Lefel bwrgleriaeth ddomestig,
6. Nifer swyddogion yr Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol.

Nid targedau perfformiad yw'r rhain. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol. Nid pwrpas yr wybodaeth a gyflwynir isod yw galluogi i aelodau'r Panel graffu ar berfformiad yr Heddlu ond yn hytrach dangos fy mod i, a fy rhagflaenydd yn craffu ar yr amcanion penodol hyn.

Mae'r siartiau isod, a baratowyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a throseddau'n seiliedig ar ddioddefwr a gofnodwyd bob 3 mis ers Ebrill 2010:




Ffigwr 1: Cofnodion misol o'r holl droseddau hyd at fis Mawrth 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: Troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr a gofnodwyd hyd at fis Mawrth 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

O wythnos 52 (diwedd blwyddyn 2015/16) roedd cynnydd o 5.1% yng nghyfanswm lefel troseddau a gofnodwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ymysg holl heddluoedd Cymru a Lloegr dyma'r 11eg cynnydd isaf o ran cyfanswm troseddau a gofnodwyd, gyda dim ond tri heddlu'n dangos gostyngiad.

Ar ôl craffu ar y ffigyrau troseddu'n fanwl a thrafod gyda'r Heddlu, rwy'n credu bod y cynnydd hwn mewn troseddau a gofnodwyd yn gymharol o ystyried cyd-destun y mathau o droseddau sy'n datblygu, y gofynion y maent yn ei rhoi ar yr Heddlu a newidiadau pellach mewn adrodd a chofnodi prosesau.

Mae'r cynnydd mewn troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr yn cael ei ysgogi gan gynnydd mewn lefelau uchel o droseddau a difrod troseddol. Mae'r cynnydd mewn trais i'w briodoli'n bennaf i newidiadau mewn prosesau cofnodi troseddau. Fodd bynnag, dylem hefyd gofio bod troseddau treisgar hefyd yn cynnwys trais domestig ac mae'n adlewyrchu cynnydd yn hyder y dioddefwyr i ddod ymlaen i adrodd ynghylch troseddau domestig.

Mae hyn yn galonogol oherwydd un o fy mlaenoriaethau cyntaf fydd mynd i'r afael â phroblem trais domestig gan ei fod yn drais anfad yr wyf yn teimlo'n angerddol drosto. Mae'r ffaith bod saith dioddefwr trais domestig yn cael eu lladd bob mis yng Nghymru a Lloegr yn ei wneud yn flaenoriaeth amlwg.

Mae'r gostyngiad mewn troseddau caffael yn parhau gyda gostyngiad o 10.1% mewn bwrgleriaeth ddomestig a gostyngiad o 10.9% mewn bwrgleriaeth annomestig. Mae gostyngiad o 5.4% yn parhau o ran dwyn o siopau.

Mae achosion o dannau bwriadol yn dal yn uwch yn Wrecsam nag mewn unrhyw sir arall yng Ngogledd Cymru; ond bu gostyngiad yn ardal Parc Caia, sy'n addawol, yn sgil yr adnoddau ychwanegol a ddefnyddir yno. Mae'r Heddlu'n dal i ddefnyddio dull amlasiantaeth penodedig gyda'n partneriaid er mwyn lleihau'r risg o danau bwriadol. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r gymuned leol i gytuno sut y gall y cyllid a sicrhawyd gan Mr Roddick gael yr effaith fwyaf

Yn ystod tymor llawn Mr Roddick, roedd cyfanswm lefel troseddau wedi gostwng 9.6% (cofnodwyd 42,586 o droseddau yn 2011/12 a chofnodwyd 38,516 yn ystod y 12 mis treigl diwethaf) ac roedd gostyngiad o 8/2% mewn troseddau'n seiliedig ar ddioddefwr.

Mae gostyngiad amlwg o 10% yn lefelau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn.

**Nifer swyddogion yr Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol:**

Mae nifer swyddogion yr heddlu arbennig wedi cynyddu i 184 (cynnydd o 47.6% ers y llynedd).

Nifer y gwirfoddolwyr yn yr Heddlu ar hyn o bryd yw 75 (a chynnydd o 174.3%).

Nifer y cadetiaid yn yr Heddlu ar hyn o bryd yn yr Heddlu yw 60 (cynnydd o sero).

Mae gan Ogledd Cymru ddeg gwahanol rôl gyda thair rôl arall yn cael eu datblygu a'u trafod gyda chymdeithasau staff. Mae 19 o geisiadau i'w prosesu ar gyfer rolau presennol gyda 107 o geisiadau i fod yn wirfoddolwyr ar y Cynllun Gwylio Cyflymder yn cael eu prosesu. Pan fydd y rhain wedi eu cwblhau bydd modd sefydlu grwpiau pellach.

Mae 1,300 o oriau gwirfoddol wedi eu darparu eisoes yn 2016. Mae gwaith paratoi'n cael ei wneud ar gyfer wythnos wirfoddoli ym Mehefin lle mae'r Heddlu'n gobeithio arddangos ei wirfoddolwyr ynghyd â chael adborth ar rolau arloesol ar gyfer y dyfodol.


Cadetiaid: Cefnogodd y Cadetiaid fy swyddfa drwy hybu a chymryd rhan mewn sgwrs fyw ar y we ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Plismona lleol hefyd wedi bod yn defnyddio cadetiaid i helpu gydag arolygon canfyddiad cyhoeddus yn y rhanbarth canol. Wrth i nesáu at y Gwanwyn a'r Haf mae nifer o weithgareddau'n cael eu cynllunio gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd a ras 7 copa Eryri.

## Amcan 2 Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol

Y pedwar mesur i'r amcan hwn a amlinellwyd yng Nghynllun 2015/16 oedd:

1. Cyfartaledd amseroedd ymateb presenoldeb mewn argyfyngau'r heddlu;
2. Nifer y galwadau nad ydynt yn rhai brys a ddosbarthwyd fel 'galwadau a adawyd';
3. Y targed arbedion ar gyfer 2015/16 yn cael ei gyflawni; a'r
4. Adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr (yn arbennig lefelau boddhad).

Mae cyfartaledd amser ymateb yn parhau i fod yn sefydlog, sef 15.0 munud.




Ffigwr 4: Cyfradd wythnosol galwadau nad ydynt yn rhai brys a adawyd 52 2015/16 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae cyfradd galwadau a adawyd ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd mae'r gyfradd tua 5.3%, sy'n gynnydd o 0.3 pwynt canran ar y 5.0% a adroddwyd i'r Panel ym Mawrth 2016, ond mae'n is na'r 5.5% a adroddwyd i'r Panel yn Rhagfyr 2015.

Gellir priodoli'r cynnydd mewn cyfradd galwadau a adawyd i newidiadau i'r model staffio yn ystafell reoli'r Heddlu. Gwnaed y newidiadau hyn oherwydd yr angen i wneud arbedion ariannol sylweddol. Tra rhoddwyd cynlluniau yn eu lle i liniaru'r newid hwn o ran staffio, rwy'n derbyn y bydd newidiadau fel hyn yn arwain at rai newidiadau ystadegol yn y pen draw, fel y cynnydd bach yn y gyfradd galwadau a adawyd.

Byddaf yn parhau i fonitro'r gyfradd galwadau a adawyd ond credaf yn gryf nad ar sail cyflymder yn unig y gellir mesur llwyddiant y system 101, ond hefyd drwy effeithiolrwydd y cyswllt cychwynnol hwnnw, yn arbennig nodi bregusrwydd fel y pwysleisiwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn 2015.

Er mwyn gallu nodi bregusrwydd, cwblhawyd hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn Chwefror gan yr holl weithredwyr a goruchwylwyr cyfathrebu. Rhoddodd yr hyfforddiant gyfle i staff

ddeall y gwahanol fathau o drallod meddyliol a gwella eu gallu i nodi galwyr bregus a chynnig cyngor priodol. Mae hefyd wedi gwella eu gwybodaeth am yr asiantaethau cymorth sydd ar gael i gynnig cefnogaeth.

O ran ansawdd y gwasanaeth, mae boddhad dioddefwyr yn dangos gwelliant parhaus gyda'r rhan fwyaf o feysydd yn dangos cynnydd yn lefelau boddhad. Mae camau dilynol, gyda'i bwyslais cynyddol, wedi arwain at gynnydd sylweddol o 5.9% pwynt canran (i 78.0%), a bu cynnydd sylweddol o 4.2 pwynt canran o ran boddhad y profiad cyfan, i 83.9%. Mae boddhad o ran Rhwyddineb Cysylltu'n dal dros 95%.

O fis Rhagfyr 2014 roedd Heddlu Gogledd Cymru yn y 35ain safle'n genedlaethol (Cymru a Lloger) o safbwynt boddhad dioddefwyr gyda 'chamau dilynol'. Fodd bynnag, erbyn Rhagfyr 2015 roedd yr Heddlu wedi codi 28 safle i'r 7fed safle. Hefyd symudodd o'r 38ain safle yn genedlaethol o safbwynt boddhad dioddefwyr gyda 'Thriniaeth' i'r 14eg safle (cynnydd o 24 safle).

## Amcan 3 Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Roedd gan Gynllun 2015/16 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr Heddlu o'r amcan hwn, sef:

1. Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol mewn damweiniau ffyrdd;
2. Lefel yr ail-droseddu (yn cynnwys ail-droseddwyr risg uchel trais domestig),
3. Nifer y rhai sy'n cael eu harestio a'u herlyn am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, a
4. Nifer yr achosion a erlynwyd ar gyfer delweddau anweddus o blant.

Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd wedi gostwng 15% fesul blwyddyn (Ebrill 2015 i Ragfyr 2016), gostyngiad o 374 i 315.

Mae nifer y damweiniau angheuol wedi cynyddu ychydig, 18%, 22 i 26, gyda chynnydd penodol yn nifer y cerddwyr a gafodd eu lladd, 1 i 6.

O Ebrill 2016 lefel yr ail-droseddu (am y 12 mis treigl) oedd 175 o'i gymharu â 173 yn ystod y 12 mis treigl diwethaf. Mae hwn yn gynnydd o 1 1.2%.

O ran cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, arestiwyd 107 yn 2015/16. Mae hyn yn gynnydd dengwaith o'i gymharu â'r 10 a arestiwyd ar gyfer 2014/15 i gyd. Mae nifer y rhai a arestiwyd am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn oherwydd y gweithgaredd a'r adnoddau ychwanegol sydd wedi eu targedu'n rhagweithiol ar gyfer achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a'r dulliau amgenach o nodi a chofnodi.

Ym Mawrth, cynhaliodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru beilot o gynyrchiadau theatr gyda'r nod o annog plant i nodi risg, a chanlyniadau posibl cymryd y risgiau hynny. Mae'n mynd i'r afael â risg 'secstio' a risgiau gam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Yn 2015/16 cafodd 214 o achosion eu herlyn am fod ym meddiant delweddau anweddus o blant.

## Amcan 4 Heddlu a Throsedd: Adeiladu partneriaethau effeithiol

Yn y Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig, rhoddodd Mr Roddick bwyslais mawr ar wella effeithiolrwydd partneriaethau presennol er budd cymunedau Gogledd Cymru. Rwy'n gwbl gefnogol i'r egwyddor honno a bydd yn parhau i fod yn un o fy mlaenoriaethau yn y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Mae pawb yn ymwybodol fod Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus yn parhau i wynebu hinsawdd ariannol heriol iawn. Felly, mae lleihau'r galw drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn ymateb i'r her. Mae cydweithio mewn partneriaethau effeithiol hefyd yn helpu i sicrhau blaenoriaethau plismona eraill yn y Cynllun.

Gan fod y problemau sy'n codi mewn achosion trais domestig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau difrifol eraill yn aml yn llawer ehangach na dim ond plismona, yr unig ffordd i sicrhau ymateb effeithiol yw drwy bartneriaeth. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod gwaith plismona'n digwydd mor effeithiol â phosibl yng Ngogledd Cymru a byddaf yn herio fy mhartneriaid pan fydd eu gweithredoedd, neu ddiffyg gweithredoedd, yn arwain at gynnydd yn y galw ar Heddlu Gogledd Cymru.

## Trosedd a Phlismona yn eich ardal

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn darparu gwybodaeth ystadegol am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau sy'n seiliedig ar godau post penodol.

## Rhan Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yn rhan hon rwy'n darparu crynodeb byr i'r Panel am y prif bethau mae fy rhagflaenydd a minnau wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi i'r gymuned ymgysylltu â phlismona.

Yn ystod ei chwarter olaf yn y swydd ymgymerodd Mr Roddick â nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd a rhoi cyfle i gymunedau Gogledd Cymru ddweud eu barn am droseddu a phlismona. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau fy mod yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r rôl ac fel y dywedwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, ymgynghori'n eang ynglŷn â blaenoriaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod gennym syniad da beth mae pobl Gogledd Cymru eisiau i ni ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod â chynrychiolwyr o'r gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, bu fy rhagflaenydd a'i swyddfa'n ymwneud â nifer o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau, yn cynnwys:

Cost plismona'n codi 9c yr wythnos yn unig

’Sgwrs fyw ar-lein i Bobl Ifanc gyda’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

’Tîm newydd yn mynd i'r afael â throseddu ar-lein <http://www.northwales-

Ffynhonnell newydd o gefnogaeth i ddioddefwyr troseddau sydd ag anawsterau iechyd meddwl

## Comisiynu

Rwy’n parhau i fonitro’r prosiectau/gwasanaethau y dyrannwyd cyllid ar eu cyfer i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian i’r cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a’u bod yn helpu i gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae’r holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cael gwybod y bydd cyllid ar gyfer 2016-17 yn aros fel y mae, ynghyd â’r tair blaenoriaeth sef cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thargedu dwys.

Cadarnhawyd cyllidebau comisiynu ar gyfer 2106/17 gan y Gweinidog Cyfiawnder. Mae’r fersiwn diwygiedig diweddaraf o’r Cynllun Heddlu a Throsedd yn cadarnhau bod trais domestig a thrais rhywiol yn dal yn faes blaenoriaeth gyda’r dioddefwyr mwyaf bregus. Am y rheswm hwnnw cymerwyd y penderfyniad i barhau i gomisiynu gwaith yr Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a’r Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol ar gyfer 2016/17 er mwyn sicrhau’r gefnogaeth hollbwysig hon i’r dioddefwyr.

At hyn, rydym yn parhau i gomisiynu Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru sy’n mynd o nerth i nerth ers ei lansio ym mis Gorffennaf 2015. Mae miloedd o ddioddefwyr eisoes wedi elwa ar y gofal a’r gefnogaeth a roddir yno.

## Cydbwyllgor Archwilio

Mae’r Cydbwyllgor Archwilio wedi parhau â’i waith yn ystod 2015/16. Mae'n cynnwys 5 aelod annibynnol a’u gwaith yw rhoi sicrwydd i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl o ba mor ddigonol yw’r trefniadau llywodraethu ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd a’r Heddlu.

Mae’r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn, ac mae’r cyfarfodydd hyn yn rhai cyhoeddus. Mae’r rhan fwyaf o gyfarfodydd hefyd wedi cynnwys sesiwn briffio i roi gwybodaeth bellach i’r pwyllgor am nifer y pynciau yn cynnwys: rheoli risg; HMIC; ystadau a rheoli’r trysorlys. Mae’r sesiynau y bwriedir eu cynnal yn y dyfodol yn cynnwys: Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol, ynni a’r amgylchedd a chau’r cyfrifon yn gynt. Hefyd, cynhelir hyfforddiant drwy Gymru bob Hydref, gan CIPFA.

Mae mwy o wybodaeth am aelodaeth a gwaith y Cydbwyllgor Archwilio ar fy ngwefan.

## Hyder a Moeseg

Mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar Bwyllgor Hyder a Safonau Moesegol yr Heddlu. Pwrpas y pwyllgor hwn yw adolygu'r ffordd y mae'r heddlu'n gweithredu'r Cod Moeseg ac ystyried ansawdd y gwasanaeth a materion yn ymwneud â hyder y cyhoedd mewn perthynas â Heddlu Gogledd Cymru.

Trwy fynychu'r pwyllgor mae fy swyddfa'n gallu monitro rheolaeth yr Heddlu o'r Cod Moesegol a'r ffordd y mae'n datblygu ac ymdrin ag ansawdd gwasanaeth a materion yn ymwneud â hyder.

## Penderfyniadau

Rwy'n bwriadu darparu crynodeb o'r holl benderfyniadau allweddol yr wyf wedi eu gwneud i'r Panel ynghyd â chrynodeb yn egluro pam y gwnaed y penderfyniad. Rwy'n hyderu y bydd hyn o gymorth i'r Panel gyflawni ei ddyletswydd i graffu ar fy mhenderfyniadau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed gan fy rhagflaenydd Mr Winston Roddick rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Ebrill 2016.

| Dyddiad | Teitl | Crynodeb |
|---|---|---|
| **02.02.16** | **Data Symudol** | Datblygu a gweithredu datrysiad data symudol newydd. |
| **03.03.16** | **Canolfan Cymorth Dioddefwyr** | Comisiynwyd y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr i gynnig cymorth i holl ddioddefwyr trosedd yng Ngogledd Cymru. |
| **09.03.16** | **Grant Trosedd ac Anhrefn** | Cytunodd y Comisiynydd i gadw'r cyllid ar gyfer y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Prosiect DIP a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/2017. |
| **10.03.16** | **IDVA** | Cadarnhaodd fersiwn diwygiedig diweddaraf y Cynllun fod trais domestig yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn darparu cymorth hollbwysig i ddioddefwyr bregus y trosedd anfad hwn. |
| **10.03.16** | **ISVA** | Cadarnhaodd fersiwn diwygiedig diweddaraf y Cynllun fod troseddau rhyw yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ariannwyd 2 swydd Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn 2015/16 a gwnaed cynnydd sylweddol o ran y gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr troseddau rhyw. Cytunodd y Comisiynydd i barhau i ariannu'r ddwy swydd hollbwysig yma ar gyfer 2016/17. |
| **18.04.16** | **Cyngor Staff yr Heddlu** | Yn y gorffennol roedd Cyngor Staff yr Heddlu'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref. Gan na fydd y Swyddfa Gartref yn ariannu'r Cyngor mwyach, mae 38 Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi penderfynu y byddant yn cyfrannu tuag at y Cyngor. Bydd yr arian yn dod o gyllideb Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac nid drwy grant gwasanaethau dioddefwyr. |
| **18.04.16** | **Cylch Gorchwyl Canolfan Cymorth Dioddefwyr** | Caiff gwaith y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr ei graffu gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod y Bwrdd Llywodraethu a gynhelir bob chwarter. Cytunwyd ar gylch gorchwyl y bwrdd gan y Comisiynydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **25.04.16** | **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Buddsoddi** | Yn y Bwrdd Gweithredol Strategol ar 2 Chwefror cymeradwyodd y Comisiynydd:-<br>• Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Buddsoddi ar gyfer 2016-17 i 2018-19<br>• Y dangosyddion darbodus a rheoli'r trysorlys ar gyfer 2016-17<br>• Rhaglen gyfalaf 2015-2020<br>• Datganiad polisi refeniw gofynnol ar gyfer 2016-17 |

Os oes angen, gellir cael gwybodaeth ychwanegol ar fy ngwefan ('Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau').

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru a minnau Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd a adnewyddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2015-2019. Diweddarwyd amcanion cydraddoldeb a sefydlwyd cynllun cyflawni ddiwygiedig i nodi camau penodol ar gyfer yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn cyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb. Caiff fy swyddfa ei chynrychioli ar bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu lle mae'r cynllun cydraddoldeb a'r camau cefnogol yn cael eu monitro. Bob blwyddyn mae adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi i ddiweddaru ynglŷn â chynnydd yn erbyn y cynllun gan yr Heddlu a fy swyddfa.

## Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi

Rwy'n gwbl ymwybodol o'r galw a grëwyd drwy gydol y flwyddyn ar Heddlu Gogledd Cymru gan arolygon Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawhydi (HMIC). Yn ddiweddar bu'r Heddlu'n destun arolwg PEEL y Gwanwyn gan HMIC ac ar hyn o bryd mae'n paratoi at arolwg PEEL yr Hydref gan HMIC, ac unrhyw arolygon thematig sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer yr arolygon hyn yn gynhwysfawr ac mae'n cynnwys:

- Casglu a chyflwyno ceisiadau am ddata
- Briffio/ôl-drafod gyda staff ar gyfer yr arolygon
- Paratoi cyflwyniad HMIC, grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un
- Sicrhau bod Argymhellion/Meysydd Gwella blaenorol HMIC yn gyfredol
- Nodi argymhellion o sesiynau ôl-drafod a gynhaliwyd yn syth ac adroddiadau terfynol.

Bellach mae'r HMIC hefyd yn cynnal 'Rhaglen Mewnwelediad'. Mae'r Mewnwelediad yn rhan o broses casglu tystiolaeth gan HMIC lle maent yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu neu edrych ar arferion gweithio drostynt eu hunain.

Ar hyn o bryd mae'r Heddlu hefyd yn adolygu'r cynlluniau gweithredu niferus sydd yn eu lle o ganlyniad i Arolygon HMIC yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae tua 24 o'r cynlluniau hynny'n bodoli gyda nifer o gamau'n cael eu dyblygu mewn gwahanol gynlluniau. Rhaid i bob heddlu brofi'n fewnol feysydd gwella/cynlluniau gweithredu i sicrhau bod camau a gwblhawyd wedi eu

mabwysiadu. Rwy'n cadw trosolwg rheolaidd o'r cynllun gweithredu hyn i sicrhau bod y meysydd y tynnwyd sylw atynt i'w gwella gan HMIC yn cael sylw llawn gan y Prif Gwnstabl.

## Cydweithredu

Rwy'n gwbl gefnogol i'r egwyddor o gydweithio. Mae rhan fawr o fy ngyrfa yn yr heddlu wedi ei threulio'n gweithio ar y cyd â heddluoedd eraill. Fodd bynnag, ni fyddaf yn cydweithio er ei fwyn ei hun. Rhaid i unrhyw gydweithio, boed rhwng heddluoedd neu rhwng gwasanaethau brys eraill, wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu. Hwn fydd fy man cychwyn bob amser wrth ystyried cydweithio ar unrhyw achos.

Dylem hefyd gofio bod Heddlu Gogledd Cymru eisoes yn cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar sawl maes, gyda Chwnstabliaeth Swydd Gaer ar Gynghrair Drylliau Tanio a'r uned cŵn ar y cyd ac mae llawer iawn o waith yn dal i gael ei wneud ar gyfleoedd eraill i gydweithio yng Ngogledd Orllewin Cymru a Chymru gyfan.

## Gohebiaeth

Ffigyrau gohebiaeth rhwng 1 Chwefror a 30 Ebrill 2016

| ***Categori Gohebiaeth*** | ***Nifer*** |
|---|---|
| Adborth penodol ynghylch y gwasanaeth plismona | 38 (18 eitem o ohebiaeth gan 1 unigolyn) |
| Adborth cyffredinol ynghylch y gwasanaeth plismona | 58 (43 eitem o ohebiaeth yn ymwneud ag un digwyddiad penodol) |
| Cwynion a atgyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 1 |
| Materion staffio (gallai hyn gynnwys trefniadau ar gyfer panelau camymddwyn, tribiwnlys apeliadau'r heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill) | 4 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 35 |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2015/16

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys


Cyflwyno'r Comisiynydd ..... 2

Cyflwyniad – Yr Adroddiad Blynyddol ..... 3

Blwyddyn o Heriau ..... 4

Natur trosedd ..... 4

Yr her ariannol ..... 5

Blwyddyn o Lwyddiannau ..... 7

Cynllun Heddlu a Throsedd 2015/16 ..... 9

Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ..... 13

Blwyddyn o Ymgysylltu ..... 15

Cyllid ac Ariannu ..... 17

Cyllideb yr Heddlu ..... 17

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ..... 18

Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2015/16 ..... 19

# Cyflwyno'r Comisiynydd




Mae'n anrhydedd mawr i mi fy mod wedi cael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru; roeddwn yn hapus iawn gyda chanlyniad yr etholiad ar 5 Mai 2016.

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd mi wnaf wrando ar drigolion cymunedau Gogledd Cymru. Rwy'n bwriadu ymgynghori â chymaint o bobl â phosib ynghylch blaenoriaethau Gogledd Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod beth mae trigolion Gogledd Cymru eisiau i ni wneud dros y 12 mis nesaf. Drwy weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid, byddaf yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl i chi.

Mae fy mlaenoriaethau cychwynnol yn cynnwys archwilio sut mae achosion camdriniaeth ddomestig yn cael eu trin, gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o droseddwyr sy'n cael eu cosbi, a chynyddu'r defnydd a wneir o offer fideo a wisgir ar y corff er mwyn cefnogi'r euogfarnau hynny. Mae trais domestig yn drosedd erchyll ac yn un rwyf yn teimlo'n angerddol yn ei gylch. Mae'r ffaith bod saith unigolyn sy'n dioddef trais domestig yn cael eu lladd bob mis yng Nghymru a Lloegr yn ei wneud yn flaenoriaeth amlwg. Mae yna gost emosiynol, mae yna gost i gymdeithas ac mae yna gost ariannol a chredaf fod yna gyfrifoldeb ar bob un ohonom i flaenoriaethu materion fel hyn. Hoffwn yn fawr iawn allu darparu offer fideo a wisgir ar y corff i bob swyddog rheng flaen yng Ngogledd Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos fod mwy o droseddwyr yn cael eu harestio, eu cyhuddo a'u dwyn gerbron y llysoedd yn dilyn cyflwyno'r offer fideo a wisgir ar y corff.

Un o fy mlaenoriaethau eraill ydi cefnogi'r ymgyrch i ddatganoli'r system cyfiawnder ieuenctid Nid oes yna ddull gweithredu cyson yng Ngogledd Cymru o ran y ffordd mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu darparu mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth. Rwyf wedi bod yn gynghorydd blaen Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyda chyfrifoldeb am Gyfiawnder Ieuenctid (sy'n cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn San Steffan). Yng Ngogledd Cymru mae Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru, Y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd ac mae gwahanol rannau o Ogledd Cymru yn delio â hyn yn wahanol. Dylid datganoli'r cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuenctid i Gymru. Mae'r system fiwrocrataidd bresennol yn rhy debyg i loteri cod post, mae plant a phobl ifanc yn haeddu gwell. Dylem ymyrryd yn gynharach pan fydd y plant yn iau a thorri'r cylch o droseddu cyn iddo ddigwydd.

Tud 23

# Cyflwyniad – Yr Adroddiad Blynyddol

Fel comisiynydd heddlu a throsedd Gogledd Cymru mae'n rhaid i mi gynhyrchu adroddiad blynyddol dan adran 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Y Ddeddf). Hwn ydi fy adroddiad cyntaf ers i mi gael fy ethol gan drigolion Gogledd Cymru yn mis Mai 2016.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol Ebrill 2015 i Mawrth 2016 ac felly mae'n cynnwys y cyfnod cyn i mi gael fy ethol i'r swydd. Bydd yn canolbwyntio ar sut cyflawnodd fy rhagflaenydd, Mr Winston Roddick CB QC ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn honno a'r cynnydd a wnaed o ran bodloni amcanion heddlu a throsedd Cynllun Heddlu a Throsedd 2015/16 (y Cynllun).

Prif gyfrifoldebau Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw:

- Sicrhau gweithrediad Heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru;
- Dal y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawni ei swyddogaethau a'r rhai hynny sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth; a
- Dod â'r partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd er mwyn cydweithio â chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ledled ardal Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys cyhoeddi cynllun heddlu a throsedd (sy'n gosod y strategaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru), gosod y praesept (y gwahaniaeth rhwng y cyllid a roddir gan y Llywodraeth a chost plismona yng Ngogledd Cymru) a chael safbwyntiau'r bobl leol a dioddefwyr trosedd.

Bydd pob un o'r cyfrifoldebau hynny yn cael sylw yn yr adroddiad hwn.



**Arfon Jones**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

# Blwyddyn o Heriau

## Natur trosedd

Yn yr amser byr ers i mi gael fy ethol yn gomisiynydd Gogledd Cymru rwyf wedi darganfod fod sawl agwedd blismona yn parhau i fod fel yr oeddent wyth mlynedd yn ôl pan wnes ymddeol o reng Arolygydd gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Fodd bynnag, mae agweddau eraill o waith plismona wedi newid yn sylweddol ers yr amser hynny. Ers 2012 a chyflwyniad y comisiynwyr heddlu a throsedd, mae troseddau newydd wedi dod i'r amlwg. Mae adnabod, ymchwilio i, ac erlyn troseddwyr am gyflawni'r troseddau hyn yn rhoi llawer iawn o bwysau ar y gwasanaeth plismona. Hyd at ychydig o flynyddoedd yn ôl ychydig iawn o sôn oedd yna am droseddau fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, troseddau seiber, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.

Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ardal blismona gymharol fach a gwledig fel Gogledd Cymru, mae'r troseddau hyn yn rhoi llawer iawn o bwysau ar swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru ac o ganlyniad mae'r Heddlu wedi symud ei adnoddau i ymdopi â hyn.

**Yn ei Gynllun diweddaraf, mi wnaeth fy rhagflaenydd bwysleisio pwysigrwydd 'gweithio mewn partneriaethau effeithiol." Rwy'n cefnogi'r egwyddor hon a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.** Gan fod materion sy'n deillio o achosion trais domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau difrifol eraill yn fwy na materion i'r heddlu yn unig, dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gallwn ymateb iddynt yn effeithiol. Wrth i'r ffocws ar y troseddau hyn barhau i gynyddu, mae pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i dyfu.

Mae nifer o'r troseddau a nodwyd uchod yn parhau i gael eu tan riportio gan ddioddefwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r darlun heb os nac oni bai yn gwella gan fod y rhai hynny sy'n dioddef y troseddau difrifol hyn yn dod yn fwy parod i ddod ymlaen a'u riportio. Mae hyn yn adlewyrchu hyder cynyddol yn Heddlu Gogledd Cymru a'r timau neilltuol a sefydlwyd i ymchwilio i'r troseddau difrifol hyn. Mae hefyd yn dangos y gofal a'r driniaeth ardderchog y mae dioddefwyr trosedd nawr yn ei gael yng Ngogledd Cymru ers i'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr cael ei sefydlu yn 2015, a byddaf yn cyfeirio at hyn mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Y bygythiad newidiol




Mae'r llun uchod wedi'i gynnwys yng nghynllun heddlu a throsedd fy rhagflaenydd. Mae'n dweud stori.

Mae'r materion sydd islaw lefel y dŵr, ac efallai nad yw rhai ohonynt yn droseddau o gwbl, yn rhoi llawer iawn o bwysau ar adnoddau Heddlu Gogledd Cymru. Er enghraifft, efallai nad yw chwiliadau am bobl ar goll o gartref a delio â phryderon iechyd meddwl yn droseddau, ond maent yn rhoi llawer iawn o bwysau ar adnoddau'r gwasanaeth plismona. Pan fydd trosedd wedi'i gyflawni, mae dioddefwyr y troseddau hyn yn aml iawn yn ddiamddiffyn, gan gynnwys plant sydd mewn risg o gael eu camfanteisio'n rhywiol, dioddefwyr trais domestig, pobl hŷn sy'n agored i dwyll ar-lein ayyb. Bydd y 'gofynion cudd' hyn fel y cyfeirir atynt, materion y mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweithio'n galed i'w hamlygu dros y deuddeng mis diwethaf, yn parhau i gael eu blaenoriaethu.

O wybod y pwysau y mae'r gofynion hyn yn eu rhoi ar y gwasanaeth heddlu, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr adolygiad effeithiolrwydd a lansiwyd gan yr Heddlu yn 2015 sy'n ceisio adnabod, deall a mesur y galw a roddir ar yr Heddlu. Erbyn hyn mae'r adolygiad yn y pedwerydd cam sef yr un terfynol ac mae nifer o argymhellion wedi cael eu gwneud. Bydd rhai o'r argymhellion hynny yn cael effaith uniongyrchol ar ein partneriaid. Fel y dywedodd fy rhagflaenydd yn ei gynllun heddlu a throsedd "Nid yw un awdurdod cyfrifol yn lleihau eu galw drwy roi'r gwaith i awdurdod cyfrifol arall yn waith partneriaeth effeithiol". Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymgymryd â dyletswyddau sefydliadau eraill ers rhy hir o lawer. Rwy'n siŵr y caiff y Prif Gwnstabl a minnau gefnogaeth ein cydweithwyr yn y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Cymunedau Diogelach wrth i'r argymhellion hyn gael eu rhoi ar waith dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

## Yr her ariannol

Newidiodd yr ymosodiadau terfysgol erchyll ym Mharis ar 13 Tachwedd 2015 y tirlun ariannol ar gyfer yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r digwyddiadau ym Mharis, Tunisia, Yr Aifft, Twrci, a gwledydd eraill wedi pwysleisio'r rôl hanfodol mae'r heddlu'n ei chwarae wrth ein cadw ni gyd yn ddiogel.

Mae sefyllfa ariannol yr heddlu heddiw heb os yn iachach na'r hyn oedd yn cael ei ragweld cyn Tachwedd 2015.

Fodd bynnag, fe ddylai'r cyhoedd fod yn ymwybodol bod Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i wynebu her ariannol sylweddol. Erbyn diwedd Mawrth 2016 roedd £24 miliwn wedi'i dorri o gyllideb Heddlu Gogledd Cymru. Er bod setliad ariannol 2016/17 yn llawer gwell na'r disgwyl, bydd dal angen gwneud arbedion o dros £7 miliwn dros y pedair blynedd nesaf.

Roedd fformiwla ariannu'r heddlu (a ddefnyddir i gyfrifo'r ffordd mae'r arian yn cael ei rannu rhwng y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr) o dan adolygiad yn 2015. Gohiriwyd yr adolygiad gan y Swyddfa Gartref pan ddaethpwyd o hyd i gamgymeriad yn y data a ddefnyddiwyd. Rydym yn dal i aros am ragor o newyddion am unrhyw adolygiad fydd yn cael ei gynnal ac felly mae lefelau cyllid pob heddlu, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, yn parhau i fod yn anhysbys. Ochr yn ochr â chomisiynwyr heddluoedd gwledig eraill rwyf wedi ymrwymo i amddiffyn a chynyddu cyllidebau ein heddluoedd, ac i wrthwynebu unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu neu drefniad adnoddau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol fyddai'n niweidiol i ardaloedd gwledig.

Gan ystyried y £24 miliwn o arbedion sydd eisoes wedi'u gwneud, mae sicrhau arbedion o £7 miliwn pellach yn her sylweddol ac yn un fydd yn arwain at newidiadau i'r ffordd y gweithredir plismona yng Ngogledd Cymru.

# Blwyddyn o Lwyddiannau

Er gwaetha'r heriau a nodwyd, fe gyflawnwyd llawer iawn yn ystod 2015/16. Wrth i mi gychwyn ar fy nhymor yn swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd, hoffwn gydnabod cyflawniadau'r gorffennol sy'n rhoi sylfaen gadarn i mi adeiladu arni yn ystod y pedair blynedd nesaf.

## Y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr

Mi wnaeth fy rhagflaenydd Mr Roddick, gomisiynu 'Asesiad o Anghenion ar gyfer Datblygu Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr yng ngogledd Cymru' (Asesiad o Anghenion) a gyhoeddwyd ym Mai 2014.

Sefydlwyd y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr mewn ymateb uniongyrchol i'r Asesiad o Anghenion hwnnw. Mi wnaeth y Ganolfan ddechrau cefnogi dioddefwyr yng Ngorffennaf 2015 a chafodd ei hagor yn swyddogol ym Medi 2015. Mae'r ffigyrau yn dweud y cyfan;

- ✓ Roedd **13,972** o achosion yn gymwys i gael cymorth gan y ganolfan eleni. Cynigwyd cymorth ychwanegol i 7,692 (55%) dan y Cod Ymddygiad i Ddioddefwyr Trosedd
- ✓ Trais gydag anaf yw'r math o drosedd sy'n cael ei gyfeirio atynt fwyaf o hyd gyda lladrad yn ail agos
- ✓ Mae'r nifer o achosion trais domestig sy'n cael eu cyfeirio atynt wedi cynyddu dros 50% ers 2014-15
- ✓ Mi wnaeth y Swyddogion Gofal Dioddefwyr gysylltu â **7,682** o ddioddefwyr yn ystod y cyfnod riportio
- ✓ Mi wnaeth y Swyddogion Gofal Dioddefwyr gynnal **3,175** o asesiadau angen ac fe adnabuwyd anghenion yn 72% ohonynt. O'r rheini roedd modd i'r Swyddog Gofal Dioddefwyr helpu bron i 50% o'r unigolyn hynny yn syth, er enghraifft drwy roi cefnogaeth emosiynol iddynt, offer caledu targed, trefnu gwasanaeth eirioli gan yr heddlu neu wybodaeth a chafodd yr achos ei gau.

Mae'r ffaith bod cymaint o ddioddefwyr wedi elwa o'r gwasanaeth hwn yn y cyfnod byr ers iddo gael ei gyflwyno yn dangos yn glir fod yna angen amdano yma yng Ngogledd Cymru. Hoffwn ganmol pawb a oedd yn gysylltiedig â sefydlu'r ganolfan ac edrychaf ymlaen at ei gwella a'i datblygu ymhellach dros y pedair blynedd nesaf.

## Heddlu Gogledd Cymru

Fel y dywedais yn gynharach yn yr adroddiad, mae gwasanaeth plismona Cymru a Lloegr wedi wynebu heriau sylweddol dros y deuddeng mis diwethaf ac nid oedd Heddlu Gogledd Cymru yn eithriad i hyn.

Yn ychwanegol at yr hinsawdd ariannol heriol, mi wnaeth yr hinsawdd feteorolegol hefyd gyflwyno heriau sylweddol i Heddlu Gogledd Cymru. Roedd rhaid darparu llawer o adnoddau i ymdrin â'r llifogydd a gafwyd yn rhai o'n cymunedau a'r penderfyniad i gau'r A55 ac roedd rhaid i'r Heddlu berfformio'n gadarn er mwyn delio'n effeithiol â'r problemau a gododd o ganlyniad i hynny. Roedd y ffordd y gwnaeth yr Heddlu ymateb, gyda chefnogaeth ein partneriaid a'r teulu plismona estynedig gan gynnwys gwirfoddolwyr, yn wych ac roedd yn esiampl o bopeth sy'n dda am wasanaeth plismona'r DU.

Mae adnoddau wedi cael eu symud o gwmpas er mwyn ymateb i'r heriau newydd a chymhleth a gyflwynwyd gan y mathau newydd o droseddau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer sydd wedi cael eu harestio. Hefyd, tarfwyd ar fasnach gyffuriau Gogledd Cymru oherwydd i'r Heddlu lwyddo i erlyn nifer o droseddwyr proffil uchel.

Wrth ymgyrchu cyn yr etholiad, cefais lawer iawn o adborth positif am y Tîm Troseddau Cefn Gwlad. Mae'n amlwg fod gan y cyhoedd feddwl mawr o'r tîm ac o ystyried tîm mor fychan ydynt maent wedi cyflawni llawer iawn. Byddaf yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r gwaith pwysig maent yn ei wneud i amddiffyn ein cymunedau gwledig a darparu gwasanaeth o safon uchel.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf mae hyder a bodlonrwydd y cyhoedd yn yr Heddlu wedi parhau i wella. Mae'r tabl isod yn dangos y gwelliannau sydd wedi'u gwneud o gymharu â heddluoedd eraill Cymru a Lloegr. Mae'r ffigyrau'n dangos safleoedd Heddlu Gogledd Cymru ymhlith 43 heddlu Cymru a Lloegr.

| Safle yng Nghymru a Lloegr | Rhagfyr 2015 | Rhagfyr 2014 | Newid |
|---|---|---|---|
| **Cysylltu** | 18 | 18 | - |
| **Gweithredu** | 15 | 24 | +9 |
| **Gwaith Dilynol** | 7 | 35 | +28 |
| **Triniaeth** | 14 | 38 | +24 |
| **Profiad Cyfan** | 15 | 39 | +24 |

Fel y gwelir uchod, mae gwelliant mawr wedi bod yn lefelau bodlonrwydd defnyddwyr. Cafodd y data diweddaraf hwn ei gyhoeddi yn Rhagfyr 2015.

Byddaf yn trafod gyda'r Prif Gwnstabl y posibilrwydd o ddatblygu'r arolygon barn hyder a bodlonrwydd i gynnwys mesur gwasanaethau iaith Gymraeg. Disgwyliaf i Heddlu Gogledd Cymru gydymffurfio â'r safonau iaith Gymraeg newydd dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chynnal y safonau uchel sydd mewn lle ar hyn o bryd.

# Cynllun Heddlu a Throsedd 2015/16

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am faterion gweithredol.

Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw wedi'i amlinellu yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd a gyhoeddwyd gan Winston Roddick yn Ebrill 2015 (cynllun 2015/16).

Cadwodd Cynllun 2015/16 y tri nod a gafodd eu cynnwys yn y cynllun heddlu a throsedd cyntaf ar ôl i rôl y comisiynydd gael ei sefydlu, sef diogelwch yn y cartref, bod yn saff mewn mannau cyhoeddus a phlismona gweladwy a hygyrch. I gyflawni'r nodau hynny, cafodd pedwar amcan heddlu a throsedd newydd eu gosod. Y rhain oedd

1. Atal trosedd
2. Darparu ymateb effeithiol
3. Lleihau niwed a'r risg o niwed
4. Adeiladu partneriaethau effeithiol

## Yr Amcanion Heddlu a Throsedd

## Atal trosedd

Atal trosedd rhag digwydd yn y lle cyntaf yw'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn ein cymunedau a sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol ac er mwyn mesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, mae Cynllun 2015/16 yn cynnwys chwe mesur:

1. Lefel yr holl droseddau a gofnodwyd
2. Lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr
3. Lefel o droseddau wedi'u datrys, yn ôl math o drosedd
4. Lefel o ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i gofnodi
5. Lefel o fyrgleriaethau domestig
6. Cynyddu niferoedd swyddogion heddlu gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chadetiaid

## Darparu ymateb effeithiol

Mae dyletswydd statudol ar yr heddlu, eu partneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol a'r awdurdodau cyfrifol megis yr awdurdodau lleol a gwasanaethau brys eraill, i ddarparu ymateb effeithiol i droseddau neu faterion diogelwch cyhoeddus. Mae'r cynllun heddlu a throsedd yn cynnwys nifer o ddisgwyliadau o ran darparu'r amcan hwn, gan gynnwys darpariaeth y Cod Ymddygiad i Ddioddefwyr a thaclo'r bygythiadau sydd yn y Gofyniad Plismona Strategol.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol ac er mwyn mesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, mae Cynllun 2015/16 yn cynnwys pedwar mesur:

1. Cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau
2. Nifer o alwadau difrys a nodir fel 'galwadau wedi'u gadael'
3. Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr
4. Cyflawni'r targed arbedion ar gyfer 2015/16

## Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae lleihau niwed a'r risg o niwed i'n cymunedau yn hynod o bwysig. Yn Awst 2014, cafodd lefel bygythiad terfysgaeth rhyngwladol i'r DU ei godi i 'difrifol' ac mae wedi parhau i fod ar y lefel honno ers hynny. Nid ydym wedi ein heithrio rhag y bygythiad hwn yng Ngogledd Cymru ac mae'n her bellach i'r Heddlu yn ystod cyfnod o doriadau ariannol sylweddol.

Mae'r mathau o droseddau sydd wedi'u cynnwys o fewn yr amcan hwn yn aml iawn yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig ac yn aml iawn mae'r dioddefwyr yn ddiamddiffyn ac ofn canlyniadau riportio digwyddiadau i'r heddlu. Mae camdriniaeth ddomestig yn enghraifft o hyn. Hefyd wedi'i gynnwys yn yr amcan hwn mae'r nifer o bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd bob blwyddyn.

Er mwyn dal y Prif Gwnstabl yn atebol ac er mwyn mesur perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn yr amcan hwn, mae Cynllun 2015/16 yn cynnwys pedwar mesur:

1. Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd
2. Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyr trais domestig risg uchel
3. Nifer o bobl sy'n cael eu harestio a'u herlyn am gamfanteisio'n rhywiol ar blant
4. Y nifer sy'n cael eu herlyn am fod â delweddau anweddus o blant

## Adeiladu partneriaethau effeithiol

Nid yw'r gwasanaeth heddlu yn ymdrechu ar ben ei hun i atal trosedd, darparu ymateb effeithiol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn helpu i sicrhau fod ymatebion yn fwy effeithiol a bod eu heffaith ar y gymuned yn fwy parhaol nag a fyddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau'r galw ac felly'n cynyddu capasiti staff rheng flaen gan helpu sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn mynd ymhellach.

Mae'r materion sy'n codi o achosion sy'n ymwneud â thrais domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau difrifol eraill o'r math yna yn rhai eang iawn eu heffaith. Maent yn cyffwrdd ac yn ymwneud â chyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n gofalu am ddiogelwch ac iechyd cyhoeddus, a dim ond drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill y gallwn ymateb yn effeithiol iddynt. Wrth i'r ffocws ar y troseddau hyn barhau i ddatblygu, bydd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn parhau i dyfu.

Nid oedd Cynllun 2015/16 yn cynnwys unrhyw fesurau ar gyfer yr amcan hwn, fodd bynnag nid yw hyn yn ei wneud yn amcan llai pwysig na'r tri arall. Yn wir, i'r gwrthwyneb. Er mwyn gallu bodloni'r heriau ariannol sylweddol sydd o'n blaenau, bydd rhaid i asiantaethau statudol, yn cynnwys yr Heddlu, barhau i gydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill er mwyn gorchfygu'r heriau hyn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cydweithio a byddaf yn annog yr holl bartneriaid statudol i drafod a cheisio adnabod ffyrdd o integreiddio darpariaeth rheng flaen yn y dyfodol.

# Perfformiad

Mae perfformiad yr Heddlu yn cael ei fesur drwy ei gymharu yn erbyn y cyfnod Ebrill 2011 i Mawrth 2012. Gwneir hynny oherwydd mai dyma'r flwyddyn lawn olaf cyn i drefniadau llywodraethu plismona newid ym mis Tachwedd 2012 gydag etholiadau'r comisiynwyr heddlu a throsedd cyntaf.

Rwyf hefyd wedi darparu cymhariaeth yn erbyn y flwyddyn ariannol flaenorol er mwyn adnabod unrhyw feysydd sy'n achosi pryder, sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i graffu ar y Prif Gwnstabl a'i ddal yn atebol yn erbyn fy Nghynllun.

Yn 2014 mi wnaeth Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM) gynnal archwiliad i safonau ac arferion cofnodi trosedd yn yr holl Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr (adolygiad oedd hwn o ba mor gywir oedd yr heddluoedd yn cofnodi trosedd). Llwyddodd Heddlu Gogledd Cymru i gyflawni graddfa gydymffurfio o 94% ac mae ymysg y pum heddlu sy'n perfformio orau. Mae hyn yn hynod bwysig. Mae'n dweud wrtha'i, a thrigolion Gogledd Cymru, bod fy Nghynllun Heddlu a Throsedd wedi'i seilio ar ddata manwl gywir. Mae'n cadarnhau bod fy nghyfrifoldebau i graffu ar berfformiad yr heddlu yn seiliedig ar wybodaeth fanwl gywir.

### Tabl A – Perfformiad yn erbyn mesurau'r cynllun heddlu a throsedd

| Amcan | Mesur | 2015/16 | 2014/15 | llinell sylfaen 2011/12 | % newid o'r llinell sylfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Atal trosedd** | **Yr holl droseddau a gofnodwyd** | 38,517 | 36,478 | 41,947 | **-8%** |
| | **Troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr** | 34,751 | 35,828 | 41,214 | **-16%** |
| | **Troseddau wedi'u datrys, yn ôl math o drosedd** | 25.7% | 34.5% | 34.5% | **-8.8** |
| | **Ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i gofnodi** | 21,188 | 23,570 | 30,160 | **-30%** |
| | **Byrgleriaethau domestig** | 1,341 | 1,490 | 1,872 | **-28%** |
| | **Cynyddu niferoedd swyddogion heddlu gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chadetiaid** | 342 | 168 | amh | **amh** |
| **Darparu ymateb effeithiol** | **Cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau (munudau)** | 17.7 | 14.3 | 15 | **+2.7 munud** |
| | **Nifer o alwadau difrys a nodir fel 'galwadau wedi'u gadael'** | 5.3% | 3.2% | 6.5% | **-1.2** |
| | **Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr** | 84% | 80.8% | 80.6% | **+3.4** |
| **Lleihau niwed a'r risg o niwed** | **Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd** | 338 | 382 | 382 | **-11%** |
| | **Lefel aildroseddu** | 7,120 | 7,035 | 10,035 | **-29%** |
| | **Nifer o bobl sy'n cael eu harestio a'u herlyn am gamfanteisio'n rhywiol ar blant** | 107 | 10 | amh | **amh** |
| | **Y nifer sy'n cael eu herlyn am fod â delweddau anweddus o blant** | 214 | 83 | 16 | **+1237%** |

*Mae colofn olaf y tabl yn dangos bod trosedd a throsedd sy'n seiliedig ar ddioddefwr wedi gostwng yn ystod tymor y comisiynydd heddlu a throsedd cyntaf, 8% ac 16% yn ôl eu trefn.*

Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol; cafodd bron i 9.000 yn llai o ddigwyddiadau eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru a hefyd mi wnaeth dros 500 yn llai o bobl ddioddef byrgleriaeth o gymharu â 2011/12.

Roedd yna hefyd ostyngiad sylweddol yn y nifer o droseddau a gyflawnwyd gan aildroseddwyr, gostyngiad o 29%. Yn ei dro, byddai hynny hefyd wedi arwain at ostyngiad yn y nifer o ddioddefwyr sydd wedi dioddef trosedd mwy nag unwaith. Mae'r cyflawniadau arwyddocaol hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'i wneud yn yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM).

Yn ystod archwiliad PEEL (Police Efficiency Effectiveness and Legitimacy) yn 2015, mi wnaeth AHEM adnabod meysydd a oedd angen eu gwella o fewn yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM). Rwyf wedi trafod y materion hyn gyda'r Prif Gwnstabl, ac rwy'n fodlon bod y meysydd hyn wedi cael y sylw dyladwy.

Wrth fesur troseddau wedi'u datrys, rydw i wedi canolbwyntio ar ganlyniadau a fyddai, yn hanesyddol wedi'u cyfeirio atynt fel 'troseddau a ddatryswyd'. Yn Ebrill 2014 mi wnaeth Y Swyddfa Gartref gyflwyno gofynion cofnodi trosedd cenedlaethol newydd. Yn y gorffennol, cofnodwyd troseddau fel rhai "a ddatryswyd" neu rhai "na ddatryswyd". Dyna'r unig ddau gategori. Roedd yn rhaid i'r holl ddatrysiadau neu ganlyniadau ddisgyn i un o'r ddau gategori. O dan y gofynion cofnodi newydd, mae 18 categori sy'n rhoi disgrifiad llawer mwy manwl gywir o'r canlyniad. Gallwch weld y rhestr lawn ar wefan Y Swyddfa Gartref.

Tra bo'r lefel o droseddau a ddatryswyd wedi gostwng o gymharu â lefel 2011/12, mae hwn yn faes y byddaf yn ei adolygu'n gyson drwy fy mhrif bwyllgor craffu, sef y Bwrdd Gweithredol Strategol. Rwy'n hynod o awyddus i edrych ar ganlyniadau drosedd ar draws ardal yr Heddlu, ac yn benodol sut mae'r canlyniadau a gofnodwyd mewn ardaloedd trefol yn cymharu â'r rhai hynny a gofnodwyd yng nghymunedau gwledig Gogledd Cymru. Rwy'n ymwybodol nad yw'r ystadegau hyn yn adlewyrchu'r pwyslais ychwanegol mae'r Heddlu yn ei roi ar gyfiawnder adferol, datrysiadau cymunedol a chamau unioni cymunedol ond mae'r gostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod rhaid canolbwyntio a chraffu mwy ar hyn.

Ers i mi gael fy ethol, rwyf wedi dweud yn glir fod plismona'r ffyrdd yn un o fy mlaenoriaethau. Mae felly yn galonogol gweld bod gostyngiad o 11.5.% wedi bod yn y nifer o bobl sydd wedi cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd o gymharu â 2011/12. Yn ystod fy nhymor yn y swydd byddaf yn craffu ar swyddogaeth Gan Bwyll i gadw ein ffyrdd yn ddiogel. Er fy mod yn cefnogi'r angen i dargedu gyrwyr sy'n goryrru, rwyf hefyd yn credu'n gryf fod angen canolbwyntio ar weddill y 'pump angheuol'.

Dros y deuddeng mis diwethaf, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi canolbwyntio mwy ar y troseddau mwyaf difrifol a dioddefwyr diamddiffyn. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i flaenoriaethau'r Cynllun. Mae canlyniad hynny yn glir i'w weld gan fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sydd wedi cael eu harestio a'u herlyn am gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Hefyd mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o achosion o feddu ar ddelweddau anweddus o blant sydd wedi cael eu datrys. Bydd yr Heddlu yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn unigolion diamddiffyn.

# Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy nghyfrifoldebau craidd yw:

- sicrhau gweithrediad Heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru
- dal y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawni ei swyddogaethau
- dod â'r partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd
- cydweithio â chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd

## Heddlu effeithiol ac effeithlon

Rwyf yn cyflawni'r cyntaf o'r rhain drwy weithredu'r strategaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd ac, yn benodol, drwy gyflawni'r pedwar amcan heddlu a throsedd, sef atal trosedd, darparu ymateb effeithiol, lleihau niwed a'r risg o niwed ac adeiladu partneriaethau effeithiol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid wyf wedi diweddaru'r Cynllun ac mae'r amcanion hyn yn parhau i fod fel y nodwyd uchod.

Cyn etholiadau'r comisiynydd yn Mai 2016, un o addewidion fy maniffesto oedd cynyddu'r defnydd a wneir o offer fideo a wisgir ar y corff yn Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n parhau i gredu fod gwerth mawr i'r dyfeisiadau hyn, fel sydd eisoes wedi'i brofi, a byddai cynyddu'r defnydd a wneir ohonynt ymhellach yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu. Rwyf eisoes wedi cael trafodaethau buddiol iawn am hyn gyda'r Prif Gwnstabl ac rwy'n edrych ymlaen at weld y dyfeisiadau yn cael mwy o ddefnydd.

## Dal y Prif Gwnstabl yn atebol

Yr wyf yn parhau i ddefnyddio'r Bwrdd Gweithredol Strategol fel fy mhrif gyfrwng i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol. Rwyf yn cadeirio'r Bwrdd hwn ac mae'r Prif Gwnstabl a'i brif swyddogion yn aelodau ohono. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd a byddaf yn derbyn adroddiadau ar sawl agwedd o swyddogaethau'r Prif Gwnstabl gan gynnwys ystadegau trosedd ar gyfer y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb misol o berfformiad (sy'n cynnwys gwybodaeth leol am berfformiad), canlyniadau arolygon swyddogion a staff ac arolygon bodlonrwydd y cyhoedd.

Fel fy rhagflaenydd, rwy'n bwriadu cyfarfod Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi a Phennaeth Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn rheolaidd a sicrhau fy mod yn cael eu hadroddiadau ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

O safbwynt AHEM, rwyf wedi ymgyfarwyddo fy hun gydag adroddiadau archwiliad PEEL ac roedd yn galonogol darllen bod yr Heddlu wedi cael graddfa 'da' ar gyfer effeithiolrwydd a chyfreithlondeb. Rwyf hefyd yn falch o'r safbwyntiau positif a gafwyd ar arweinyddiaeth Heddlu Gogledd Cymru. Fel y dywedais yn fy maniffesto ar gyfer yr etholiad, credaf fod angen adolygu'r ffordd y mae gemau pêl-droed a phrotestiadau yn cael eu plismona a byddaf yn trafod hyn gyda'n AEM Wendy Williams.

## Dod â'r partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd

Credaf yn gryf mewn gweithio mewn partneriaeth ac rwy'n llwyr gefnogi penderfyniad fy rhagflaenydd i roi gwaith partneriaeth effeithiol ar frig yr agenda. Mae eisoes yn amlwg i mi y bydd cefnogaeth ein partneriaid yn hanfodol bwysig os ydym am gyflawni'r nodau y byddaf yn eu gosod.

Edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Fy mlaenoriaeth gyntaf o ran y system cyfiawnder troseddol ydi gwella'r system cyfiawnder ieuenctid gan fod y system ar hyn o bryd yn dyblygu gwaith ac yn aneffeithlon. Byddaf hefyd yn chwilio am atebion a sicrwydd gan ein partneriaid yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) na fydd y bwriad i gau llysoedd yng Ngogledd Cymru yn cael effaith niweidiol ar ddioddefwyr a thystion. Bydd nifer o ddioddefwyr a thystion yn wynebu teithiau hirach i'r llys o ganlyniad i gau llysoedd ac rwy'n llwyr ddisgwyl cynnydd mewn gwarantau 'heb ymddangos'. Mae canlyniadau posib hyn ar Heddlu Gogledd Cymru yn peri pryder i mi a byddaf yn trafod hyn gyda'n partneriaid.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weithio'n effeithiol â phartneriaid ar Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru, Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cymunedau Diogelach. Credaf mai drwy'r fforymau hyn y bydd yr amcan o bartneriaethau effeithiol yn cael ei wireddu. Byddaf yn canolbwyntio i ddechrau ar chwilio am gyfleoedd i gydgomisiynu gwasanaethau, a byddaf yn cyfeirio at hyn mewn mwy o fanylder ar dudalen 18.

## Ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd

> "All collaboration is welcome, but only through systematic and thought-through partnership will we maximise improvements in efficiency and effectiveness"

**Ysgrifennydd Cartref, Uwchgynhadledd Diwygio'r Heddlu, Rhagfyr 2015**

Mae'r datganiad uchod a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref yn 2015 yn adlewyrchu fy safbwyntiau i ar gydweithio. Mae'n rhaid i unrhyw gydweithio, boed hynny rhwng heddluoedd neu rhwng y gwasanaethau brys eraill, wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn barod gan eu bod yn rhannu adeiladau ac yn rheoli eu cyfleusterau. Hefyd mae'r Heddlu yn cydweithio â Heddlu Swydd Gaer drwy'r gynghrair drylliau tanio a'r uned gŵn ar y cyd.

Yn rhanbarth y Gogledd Orllewin, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu cyfleoedd cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Swydd Gaer a Heddlu Glannau Mersi. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Swydd Gaer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru. Mae pob sefydliad yn cydnabod fod yna fanteision busnes ac ariannol i weithio mewn partneriaeth ac mae concordat wedi'i gytuno sy'n tanategu ac yn cefnogi'r rhaglen gydweithio.

Ar lefel Cymru gyfan mae datblygiadau yn y maes cydweithio wedi bod yn araf ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'n anodd gweld lle mae'r manteision i Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r achosion busnes sydd wedi cael eu paratoi hyd yma wedi canolbwyntio ar wasanaethau caffael a'r ystâd. Mae daearyddiaeth yn unig yn golygu y bydd y manteision o fudd i heddluoedd de Cymru yn fwy na ni.

Byddaf yn parhau i weithio gyda chomisiynwyr eraill Cymru er mwyn ymchwilio i gyfleoedd eraill i gydweithio ar draws Cymru fyddai'n sicrhau manteision cadarn a phositif i drigolion Gogledd Cymru.

# Blwyddyn o Ymgysylltu

Dyma grynodeb o waith ymgysylltu fy rhagflaenydd yn ystod ei flwyddyn olaf yn y swydd.

**Ebrill 2015**
Mi es i Barc Caia yn Wrecsam i gyfarfod cynrychiolwyr y gymuned leol yn dilyn cynnydd mewn ymosodiadau arson yn yr ardal. Yn ystod fy ymweliad cefais gyfle i gyfarfod cynghorwyr a swyddogion heddlu lleol i drafod y mesurau sydd mewn lle i daclo'r materion hyn ym Mharc Caia. Hefyd cefais wahoddiad gan Fugeiliaid Stryd Wrecsam i weld y gwasanaeth ardderchog maent yn ei ddarparu gyda'r nos yn Wrecsam.

**Mai 2015**
Mae trosedd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf gydag ymddangosiad troseddau fel camfanteisio'n rhywiol ar Blant (CSE). Er mwyn sicrhau bod CSE yn cael ei daclo'n effeithiol ac yn effeithlon yng Ngogledd Cymru mae'n bwysig bod sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth a dyna oedd ffocws yr Uwchgynhadledd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a gynhaliwyd yn Llanelwy. Yn fy anerchiad agoriadol mi ofynnais i'r GIG, Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd er mwyn cadw plant Gogledd Cymru yn ddiogel.

**Mehefin 2015**
Mi es i'r Rhyl i gyfarfod aelodau'r gymuned leol ac i siarad â busnesau lleol yn yr ardal. Cefais gyfle i weld gyda fy llygaid fy hun y gwaith sy'n cael ei wneud gan y grwpiau lleol i gynnig gwasanaethau i'w cymunedau lleol. Yn ystod fy ymweliad â'r Rhyl cefais fy nghyflwyno am y tro cyntaf i waith Canolfan Gymunedol Foryd; enillydd fy Ngwobr Aur yng Ngwobrau Cymunedol eleni. Mae Canolfan Gymunedol Foryd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i'r gymuned leol gan gynnwys gwersi TG, banc bwyd a chymorth i ddod o hyd i waith.

**Gorffennaf 2015**
Mi ymwelais â nifer o lefydd diddorol yng Ngorffennaf gan gynnwys carchar Altcourse i weld y gwaith maent yn ei wneud i ailsefydlu troseddwyr yn y gymuned, Sioe Frenhinol Cymru ac Ysgubor Goch yng Nghaernarfon i weld y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y gymuned leol. Hefyd cefais y pleser o gyfarfod Uwcharolygydd o Dalaith Fictoria, Awstralia a wnaeth rannu arferion taclo troseddau ffermio gyda'n tîm troseddau cefn gwlad.

**Awst 2015**
Mi fynychais nifer o sioeau amaethyddol dros yr haf gan gynnwys Sioe Môn, Sioe Dinbych a Fflint a Sioe Meirionnydd. Mae'r sioeau amaethyddol yn gyfle i mi siarad â thrigolion Gogledd Cymru a chlywed eu safbwyntiau a'u pryderon am blismona.

**Medi 2015**
Yn Hydref 2014 cafodd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd arian i ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr trosedd yn lleol. Mi agorais Ganolfan Gymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn swyddogol ar 24 Medi ac roedd yn gyfle i wasanaethau lleol gael gweld y ganolfan a siarad â'r staff am y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yno.

**Hydref 2015**
Fe gynhaliwyd fy ail seremoni gwobrau cymunedol i ddathlu a chydnabod gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan aelodau anhunanol ein cymuned.

Fe gynhaliwyd y seremoni yn Abergele ac roedd yn anrhydedd gwobrwyo'r rhai hynny sy'n rhoi cymaint o'u hamser hamdden i helpu eraill. Roedd yr enillwyr yn cynnwys Canolfan Gymunedol Foryd, Lisa Clutton a Chlwb Ieuenctid Moelfre.

**Tachwedd 2015**
Cefais wahoddiad i fod yn siaradwr gwadd yn nigwyddiad Llandudno Friendship Link. Mi siaradais am fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mi atebais gwestiynau gan aelodau'r gymuned leol. Hefyd mi wnes fynychu lansiad Ymgyrch Yfed a Gyrru'r Nadolig yn Wrecsam sy'n enghraifft ardderchog o waith partneriaeth i leihau trosedd ac i gadw trigolion Gogledd Cymru yn ddiogel.

**Rhagfyr 2015**
Mi gynhaliais ddigwyddiad ymgysylltu â'r trydydd sector er mwyn gwrando ar safbwyntiau asiantaethau'r trydydd sector fel rhan o fy mhroses ymgynghori ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd. Hefyd mi es i Gei Connah i siarad â busnesau lleol a thrigolion lleol. Mi wrandewais ar eu pryderon a gwelais dystiolaeth o'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yn yr ardal.

**Ionawr 2016**
Fel rhan o fy ngwaith ymgynghori mi gynhaliais gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru er mwyn clywed safbwyntiau a phryderon y cyhoedd am blismona. Cefais wahoddiad i fod yn siaradwr gwadd yn nigwyddiad Un Llais Cymru yn Y Waun. Mi siaradais am fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mi atebais gwestiynau gan aelodau'r gymuned leol.

**Chwefror 2016**
Roedd yn anrhydedd mynychu noson wobrwyo Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn a chyflwyno fy ngwobr Unigolion Ifanc i Glwb Ieuenctid Moelfre. Cawsant dystysgrifau i gydnabod eu gwaith caled yn yr ardal leol. Mae aelodau Clwb Ieuenctid Moelfre yn helpu i gadw eu hardal leol yn daclus ac maent wedi llwyddo i gael gwared ar y rhwystrau rhwng y bobl ifanc ac aelodau hŷn eu cymuned.

**Mawrth 2016**
Yn ystod cyfnod purdah cyn etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd nid oeddwn yn gallu ymgysylltu â chymunedau; rhywbeth yr oeddwn wedi'i fwynhau gymaint. Fodd bynnag, mi gefais gyfle i fynychu noson wobrwyo Gwobrau Uchel Siryf Gwynedd i siarad ychydig am fy amser fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r hyn yr oeddwn wedi'i wneud yn ystod fy amser yn y swydd.

## Ymgysylltu yn y Dyfodol

Mae Adran 14 Deddf 2011 yn nodi'n glir fod gennyf gyfrifoldeb statudol i ofyn am farn y cyhoedd wrth i mi ffurfio fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Rwy'n bwriadu ymgynghori llawer drwy Ogledd Cymru, nid yn unig er mwyn bodloni fy nyletswyddau statudol, ond oherwydd fy mod yn gwerthfawrogi'n fawr farn y cyhoedd ac yn cydnabod pwysigrwydd adlewyrchu eu safbwyntiau yn fy mlaenoriaethau.

Bydd yna wastad gost ariannol i ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd. Tra byddaf bob amser yn sicrhau gwerth am arian, rwyf hefyd yn cydnabod pwysigrwydd clywed safbwyntiau'r cyhoedd oherwydd fi ydi cynrychiolydd y cyhoedd ar faterion plismona ac mae'n bwysig bod y cyhoedd yn cael gwybod sut rwy'n eu cynrychioli.

# Cyllid ac Ariannu

## Cyllideb yr Heddlu

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am bennu'r arian fydd ar gael i'r Prif Gwnstabl i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru. Clustnodwyd cyllideb net o £140 miliwn ar gyfer 2015/16.

Daeth 52% o gyllid yr Heddlu o grantiau llywodraeth ganolog Y Swyddfa Gartref, a daeth 48% gan drethdalwyr lleol. Bydd y cyfrifon drafft terfynol ar gyfer 2015/16 yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio erbyn diwedd Mehefin 2016 ac yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan. Bydd y cyfrifon wedi eu harchwilio ar gael erbyn diwedd mis Medi.

Roedd 2015/16 yn flwyddyn heriol yn ariannol, a chafodd gwerth £4.448miliwn o doriadau eu gwneud. Hon oedd y bumed flwyddyn yn olynol i Heddlu Gogledd Cymru orfod gwneud toriadau – mae gwerth £24.101miliwn o doriadau wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn y cyhoeddiad yn Natganiad yr Hydref 2015 y byddai cyllidebau heddluoedd Cymru a Lloegr yn cael eu hamddiffyn, roedd y setliad ar gyfer 2016/17 yn well na'r disgwyl, gyda dim ond gostyngiad o 0.6% yn grant y llywodraeth, o gymharu â'r gostyngiad o 4% yr oeddem wedi'i ragweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Er bod y rhagolygon yn fwy positif ar gyfer y dyfodol agos, mae dal llawer i'w wneud gan fod rhaid arbed £2.838miliwn yn 2016/17, ac oddeutu £4.541miliwn arall erbyn 2019/20.

## Darparu Strategaeth yr Ystâd

Erbyn hyn mae Strategaeth yr Ystâd 2012-16 (y Strategaeth) yn ei blwyddyn olaf ac yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i foderneiddio'r ystâd gyda gwaith ar y gorsafoedd heddlu a thân ar y cyd newydd yn cael ei gwblhau yn Nefyn a Thywyn. Bydd cydleoli gwasanaethau yma yn galluogi'r ddau wasanaeth i weithio'n agosach â'i gilydd a bydd rhannu adeiladau yn arbed costau. Mae'r orsaf yn Nhywyn wedi cael graddfa BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ardderchog ac mae'r gorsafoedd hyn yn fodel ar gyfer prosiectau cydweithio eraill yn y dyfodol yng nghymunedau Gogledd Cymru. Mae Gorsaf Heddlu Llangollen mewn lleoliad delfrydol yng nghanol y dref ar gyfer plismona'r gymuned ond roedd angen moderneiddio tu mewn yr orsaf. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud ac mae'n golygu fod y swyddogion heddlu yn parhau i fod yn weladwy ac yn hygyrch yng nghanol y dref.

Mae'r hen orsaf heddlu yn Oxford Road, Llandudno wedi cael ei dymchwel ac mae gorsaf dros dro wedi cael ei hagor i lawr y ffordd yn Argyll Road, tra bydd yr orsaf heddlu newydd yn cael ei hadeiladu. Rydym wedi cael caniatâd cynllunio a bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod haf 2016 a'r gobaith ydi y bydd yr orsaf newydd yn barod erbyn haf 2017.

Rydym wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer yr Orsaf Heddlu a'r Ddalfa newydd yn Llai, ger Wrecsam a'r gobaith ydi y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod Medi 2016. Bydd yr adeilad yn barod yn gynnar yn ystod 2018 ac yn ogystal â hyn bydd yna orsaf heddlu yng nghanol y dref yn hen Galeri Oriel sydd wrth ymyl llyfrgell y dref a Neuadd y Dref. Rydym wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer yr orsaf yng nghanol y dref a bydd y gwaith addasu yn dechrau yn ystod haf 2016 er mwyn i'r orsaf fod yn barod yr un amser â'r lleoliad yn Llai. Yna bydd yr orsaf heddlu bresennol ym Modhyfryd yn cael ei datgomisiynu a'i gwerthu, a bydd yr incwm a geir o hyn yn mynd tuag at gostau'r cyfleusterau newydd.

Bydd y Strategaeth bresennol wedi cael ei chwblhau'n llwyr erbyn dechrau 2018 ac felly bydd Strategaeth newydd yn cael ei datblygu yn hwyrach yn 2016 er mwyn asesu pa fath a maint yr ystâd fydd yn briodol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf er mwyn darparu ystâd ystwyth a hyblyg sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaeth plismona gweladwy a hygyrch yn eich cymunedau.

## Cronfa'r Comisiynydd 2015/16

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i roi grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol sy'n gallu cefnogi nodau ac amcanion fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa'r Comisiynydd yn cynnwys ffrydiau grant a oedd wedi'u clustnodi yn y gorffennol, gan gynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau (DIP) a Chronfa Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae manylion grantiau'r Gronfa Diogelwch Cymunedol wedi'u cynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Yn ychwanegol at y Gronfa Diogelwch Cymunedol, rwy'n cael grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2015/16 fe gomisiynwyd y gwasanaethau canlynol:

- Y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr
- Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol
- Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol

Mi wnaeth bob un o'r rhain wella'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr trosedd ar draws Gogledd Cymru ac maent wedi cael eu hail-gomisiynu ar gyfer 2016/17.

Pan gawsom hysbysiad grant 2016/17, cawsom hefyd gadarnhad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder eu bod yn gobeithio bod mewn sefyllfa o 2017/18 ymlaen i roi dyraniadau grant tymor hirach i gomisiynwyr. Rwy'n croesawu'r newid hwn fydd yn helpu sefydliadau i allu gwneud cynlluniau hirdymor ond yn fwy pwysig, bydd yn dod â diwedd i'r gylchred flynyddol o ansicrwydd a dryswch sy'n annheg i'r unigolion sydd yn y swyddi sy'n cael eu hariannu gan y grant hwn ac sy'n tanseilio effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Rwy'n credu'n gryf mewn cydgomisiynu. Drwy weithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Cymunedau Diogelach byddaf yn chwilio am gyfleoedd i gydgomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae cydgomisiynu yn ffordd o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd cyfannol ac unedig. Er mai fy nghyfrifoldeb statudol i, a mi yn unig, ydi comisiynu gwasanaethau, rwy'n cefnogi unrhyw strategaeth gomisiynu ar y cyd sy'n sicrhau effeithiolrwydd ac sydd yn y pendraw yn gwella'r gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr trosedd ar draws y rhanbarth.

## Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cafodd cyllideb flynyddol 2015/16 ei gosod ar yr un lefel â chyllideb Awdurdod yr Heddlu yn ei dymor olaf sef £731,174.00. Mae hyn gyfwerth â 0.52% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

Ar gyfer 2016/17, cyllideb y Swyddfa fydd £741,000.00, sydd eto gyfwerth â 0.52% o gyfanswm cyllideb yr Heddlu. Mae newidiadau i gyfrifiadau Yswiriant Gwladol wedi ychwanegu 3.4% at gostau'r gweithwyr, ond oherwydd yr arbedion sydd wedi’u hadnabod mewn meysydd eraill, 1.4% yw'r cynnydd.

# Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2015/16

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am y Gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol wedi penderfynu sut i ddosrannu'r arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer pob ardal partneriaeth. Yn 2015/16 cafodd arian y gronfa ei ddosrannu fel a ganlyn:

| Derbynnydd | Pwrpas | Grantiau |
|---|---|---|
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn** | Gwynedd: Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £15,000.00 |
| | Gwynedd: Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £7,000.00 |
| | Gwynedd: TCC Street Hawk | £3,666.83 |
| | Ynys Môn: Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £17,483.17 |
| | Ynys Môn: Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £2,000.00 |
| | **Cyfanswm** | **£45,150** |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y Cyd | £22,000.00 |
| | Prosiect Cartrefi Diogelach ar y Cyd | £7,000.00 |
| | Gwarchod y Gymdogaeth ar y Cyd | £4,000.00 |
| | Camerâu TCC y gellir eu hadleoli | £10,000.00 |
| | Dau Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £11,126.00 |
| | **Cyfanswm** | **£54,126** |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | £11,577.28 |
| | Prif Swyddog Gwarchod y Gymdogaeth | £13,643.09 |
| | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol | £6,345.63 |
| | **Cyfanswm** | **£54,126** |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam** | Gwasanaeth Caledu Targed | £2642.00 |
| | Prosiect Cyfathrebu a Thawelu Meddwl | £4000.00 |
| | Goruchwyliaeth TCC | £6000.00 |
| | OWL a Chynllun Gwarchod | £9500.00 |
| | Cydlynu Atal Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol | £13000.00 |
| | **Cyfanswm** | **£35,142** |
| **Tîm Troseddwyr Ifanc Gwynedd a Môn** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Atal Troseddwyr Ifanc | £16,464.00 |
| **Tîm Troseddwyr Ifanc Conwy a Sir Ddinbych** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Atal Troseddwyr Ifanc | £20,384.00 |
| **Tîm Troseddwyr Ifanc Sir y Fflint** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Atal Troseddwyr Ifanc | £15,029.00 |
| **Tîm Troseddwyr Ifanc Wrecsam** | Cyfraniad tuag at Weithiwr Atal Troseddwyr Ifanc | £19,695.00 |
| **Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gogledd Cymru** | Gwasanaethau Atgyfeirio Ymyrraeth Cyffuriau ac ar ôl Arestio | £892,622.00 |
| Tud 43 | **Cyfanswm** | **£1,130,178** |

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 27 Mehefin 2016 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Mr. Richard Jarvis<br>Prif Swyddog ac Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br>Mrs. Dawn Hughes<br>Swyddog Cefnogi ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **TESTUN:** | Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyhoeddi manylion costau gweinyddol, costau cyfieithu ag hawliadau am dreuliau a lwfansau aelodau unigol y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHaTh) fel sy'n ofynnol gan Gytundeb y Swyddfa Gartref ar gyfer 2015/16.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y PHaTh, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei atodi fel amod y taliad grant unigol ac mae'n rhaid i'r PHaTh gyhoeddi ar eu gwefan, manylion am eu holl wariant o leiaf.

2.1 Mae Cylch Gorchwyl y PHaTh eisoes yn gofyn i dreuliau a dalwyd i aelodau'r panel gael ei gyhoeddi yn flynyddol ac ar gael drwy wefannau'r Awdurdod Lletyol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), y PHaTh a gwefan Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

2.2 Mae manylion gwariant y PHaTh ar gyfer 2015/16 i'w gweld yn Atodiad 1 a manylion y treuliau a dalwyd i aelodau unigol o'r PHaTh ar gyfer 2015/16 i'w gweld yn Atodiad 2.

## 3. ARGYMHELLIAD/DEWIS

3.1 Bod costau gweinyddol y PHaTh, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel ar gyfer treuliau a lwfansau yn cael eu nodi a'u cyhoeddi yn ôl y gofyn.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,055 i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer cynnal y Panel Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn unol â Deddf Cyfrifoldeb Cymdeithasol a Diwygio'r Heddlu 2011.

4.2 Cyflwynwyd PHaTh i graffu ar weithredoedd a phenderfyniadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHaTh). Bydd y PHaTh yn darparu cefnogaeth a her i'r PCC wrth arfer eu swyddogaethau.

4.3 Caiff y grant ei ddyrannu o dan dri phennawd: Costau Gweinyddol, Threuliau Aelodau a Chostau Cyfieithu. Mae'r Awdurdod Lletyol yn gallu trosglwyddo arian rhwng y tri phennawd, ar yr amod nad yw cyfanswm swm y grant yn cael ei rhagori.

4.1 Cymeradwyodd y PHaTh Cynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Taliadau i gael eu gwneud drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), wedi'i chapio ar uchafswm sy'n cyfateb i 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau o'r PHaTh yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

4.2 Mae'n ofynnol i'r PHaTh gyhoeddi manylion treuliau a dalwyd i'w aelodau panel yn flynyddol a bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at y diben o dryloywder ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

## 5. YMGYNGHORIAD

5.1 Ymgynghorwyd gyda’r ??

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid o £70,055 i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd.

## 7. RISG

7.1 Dim.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Ceisio cael cymeradwyaeth i gyhoeddi costau gweinyddol y PHaTh, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel ar gyfer treuliau a lwfansau.

Atodiad 1

**Gwariant Grantiau Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2015/16**

| | **GWARIANT GWIRIONEDDOL** | **GRANT AR GAEL** | **GORWARIANT/ TANWARIANT** |
|---|---|---|---|
| COSTAU GWEINYDDOL | 61,157.84 | 53,300 | +7857.84 |
| COSTAU AELODAU | 7846.03 | 11,040 | -3193.97 |
| COSTAU CYFIEITHU | 5799.92 | 5715 | +84.92 |
| Cyfanswm | £74,803.79 | £70,055 | +£4748.79 |

**Lwfansau Aelodau ar gyfer 2015/16**

| Aelodau | Lwfans (gan gynnwys YG) | Treuliau | i | o |
|---|---|---|---|---|
| Pat Astbury | 990.00 | 375.40 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Amanda Bragg | 198.00 | 70.20 | 01/04/15 | 03/01/16 |
| Cyng Brian Blakeley | 495.00 | 94.50 | 01/09/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Glenys Diskin | 396.00 | 147.60 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Bob Dutton | 99.00 | 47.70 | 01/04/15 | 01/09/15 |
| Cyng. Philip C. Evans | 860.30 | 101.79 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Julie Fallon | 638.31 | 0.00 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. David Griffiths | 297.00 | 82.80 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. William Hughes | 297.00 | 121.50 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Clyng. Bernie McCann | 198.00 | 86.40 | 01/12/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Dilwyn Morgan | 594.00 | 248.40 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng Neville Phillips | 198.00 | 70.20 | 01/01/16 | 31/03/16 |
| Tim Rhodes | 594.00 | 210.60 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| Cyng. Gethin Williams | 297.00 | 57.60 | 01/04/15 | 31/03/16 |
| **Cyfanswm** | **6151.61** | **1714.69** | | |

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **19 Medi 2016** | **Cwynion a dderbyniwyd**<br>Derbyn crynodeb o nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r camau | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **19 Medi 2016**<br>**12 Rhag 2016** | **Diweddariad ar y Gyllideb ar gyfer 2016/17** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (OPCC) |
| **23 Ion 2017** | **Cyllideb ac Adroddiad Gosod Praesept 2017/18**<br>Ystyried praesept arfaethedig ar gyfer 2017/18 | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **23 Ion 2017** | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**<br>Nod y papur hwn yw rhoi manylion ynghylch sut mae'r gyllideb wedi'i chydbwyso hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer cydbwyso'r blynyddoedd i ddod wrth gynnal perfformiad a sicrhau fod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (OPCC) |
| **13 Mawrth 2017** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd**<br>Cynllun yr Heddlu a throsed Gogledd Cymru | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl** | Mark Polin, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |